Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 117/2026
Dyddiad cyhoeddi: 24/11/2026

Archwilio disgwyliadau rhieni a gofalwyr o rôl ysgolion a'r cartref mewn datblygiad ac ymddygiad plant

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80853-637-3

Archwilio disgwyliadau rhieni a gofalwyr o rôl ysgolion a’r cartref mewn datblygiad ac ymddygiad plant

Awduron: Alma Economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics, (2026). Archwilio disgwyliadau rhieni a gofalwyr o rôl ysgolion a’r cartref mewn datblygiad ac ymddygiad plant. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 117/2026.

Mae'r adroddiad hwn i'w gael ar dudalennau Ystadegau ac ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

Safbwyntiau’r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad a chefndir 6
1.1 Cefndir yr ymchwil hwn 6
1.2 Nodau ac amcanion yr ymchwil 8
1.3 Strwythur yr adroddiad 9
2. Methodoleg 10
2.1 Synthesis Tystiolaeth Cyflym (RES) 10
2.1.1 Proses RES 10
2.1.2 Heriau a chyfyngiadau 12
2.2 Trafodaethau fforwm agored gyda rhieni a gofalwyr 12
2.2.1 Trafodaethau'r fforwm agored 13
2.2.2 Heriau a chyfyngiadau 13
3. Synthesis Tystiolaeth Cyflym (RES) 15
3.1 Natur ac ansawdd y sail dystiolaeth 15
3.2 Canfyddiadau rhieni a gofalwyr o'u cyfrifoldebau eu hunain 16
3.2.1 Partneriaid dysgu er gwaethaf heriau 16
3.2.2 Canfyddiadau'n amrywio yn ôl gwahanol broffiliau rhieni a gofalwyr .. 17
3.2.3 Rôl rhieni a gofalwyr mewn presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol ... 18
3.3 Canfyddiadau rhieni a gofalwyr o gyfrifoldebau ysgolion 18
3.3.1 Rheolaeth yr ystafell ddosbarth ac ymddygiad 18
3.3.2 Llesiant emosiynol 19
3.3.3 Plant ag ADY 19
3.3.4 Plant niwroamrywiol 19
3.3.5 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant 20
3.3.6 Partneriaethau cartref-ysgol 20
3.3.7 Ymgynghori â rhieni a gofalwyr ar benderfyniadau 20
3.3.8 Presenoldeb yn yr ysgol 21
3.4 Canfyddiadau o gefnogaeth gan wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol 21
3.4.1 Mynediad at wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol 21
3.4.2 Heriau cael mynediad at wasanaethau a chanfyddiadau o rôl yr ysgol 22

3.5 Amrywiaeth o ran disgwyliadau a dealltwriaeth rhieni a gofalwyr yn ôl cyd-destun 23
3.5.1 Disgwyliadau rhieni a gofalwyr sydd â phlant ag ADY 23
3.5.2 Disgwyliadau rhieni a gofalwyr yn ôl cyd-destunau economaidd-gymdeithasol 25
3.5.3 Disgwyliadau rhieni a gofalwyr yn ôl cyd-destunau ieithyddol a diwylliannol 25
3.5.4 Cyd-destunau ôl-bandemig 26
3.6 Gwersi sydd ar gael o wledydd eraill y DU a gwledydd cymharol ar y goblygiadau ar gyfer polisi trawslywodraethol 26
4. Trafodaethau fforwm agored gyda rhieni a gofalwyr 29
4.1 Meysydd cyfrifoldeb a rennir 29
4.2 Meysydd ychwanegol sy'n gyfrifoldeb i'r ysgol 29
4.3 Ffactorau allweddol sy'n effeithio ar gyfrifoldebau rhieni a gofalwyr 29
4.4 Cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol 30
4.5 Cymorth gan wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol 30
4.6 Ffyrdd ymlaen ar gyfer rolau a chyfrifoldebau'r ysgol a'r cartref 30
5. Casgliad 31
5.1 Crynodeb o brif ganfyddiadau'r RES 31
5.1.1 Natur ac ansawdd y sail dystiolaeth 31
5.1.2 Canfyddiadau rhieni a gofalwyr o'u cyfrifoldebau eu hunain 31
5.1.3 Canfyddiadau rhieni a gofalwyr o gyfrifoldebau ysgolion 32
5.1.4 Canfyddiadau o gefnogaeth gan wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol 32
5.1.5 Amrywiaeth o ran disgwyliadau a dealltwriaeth rhieni a gofalwyr yn ôl cyd-destun 32
5.1.6 Gwersi sydd ar gael o wledydd eraill y DU a gwledydd cymharol ar y goblygiadau ar gyfer polisi trawslywodraethol 33
5.2 Pwyntiau i'w hystyried yn y dyfodol 33
5.2.1 Pwynt 1 i'w ystyried yn y dyfodol: Gallai ysgolion yng Nghymru adolygu, a, lle bo angen, diwygio eu dulliau o gynnwys rhieni a gofalwyr. 33
5.2.2 Pwynt 2 i'w ystyried yn y dyfodol: Naill ai'n genedlaethol neu'n lleol, dylid gwneud disgwyliadau ar gyfer cyfrifoldebau cartref-ysgol yn dryloyw ac yn ddealladwy i rieni a gofalwyr, dysgwyr, ysgolion a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol. 34

5.2.3 Pwynt 3 i'w ystyried yn y dyfodol: Archwilio arferion gorau o ran cynnal ymchwil gyda rhieni a gofalwyr yng Nghymru 35
5.2.4 Pwynt 4 i'w ystyried yn y dyfodol: Dylid cynnal ymchwil a/neu ymgynghori pellach ynghylch rolau a chyfrifoldebau rhwng yr ysgol a'r cartref. 35
6. Cyfeirnodau'r Synthesis Tystiolaeth Cyflym 37
7. Atodiad A: Protocol RES 39
7.1 Cwestiynau ymchwil 39
7.2 Meini prawf cynnwys ac eithrio 40
7.3 Ffynonellau gwybodaeth 41
7.4 Strategaeth chwilio 41
7.5 Cofnodion astudio 42
7.5.1 Rheoli data 42
7.5.2 Proses ddethol a chasglu data 42
7.6 Echdynnu data 43
7.6.1 Asesu ansawdd a pherthnasedd astudiaethau 43
8. Atodiad B: Canllaw trafodaeth fforwm agored 46

Rhestr o dablau

Tabl 1: Meini prawf cynnwys ac eithrio ar gyfer y Daflen Detholiad Ymchwil 40
Tabl 2: Allweddeiriau ar gyfer strategaeth chwilio 42
Tabl 3: Asesu ansawdd 44

Geirfa

AAAA

Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd

ADY

Anghenion Dysgu Ychwanegol

ALl

Awdurdod lleol

ASD

Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth

CAMHS

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

CiG

Cwricwlwm i Gymru

LHDTCRh

Lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws, cwiar, a rhyngryw

RES

Synthesis Tystiolaeth Cyflym

Ysgolion a gynhelir

Ysgolion a gynhelir yn ariannol yn gyfan gwbl neu'n sylweddol gan awdurdod lleol

OECD

Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

UCD

Uned cyfeirio disgyblion, math o ddarpariaeth addysg a gynhelir gan awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr na allant fynychu ysgol brif ffrwd oherwydd gwaharddiad, anghenion iechyd, neu amgylchiadau eraill

1. Cyflwyniad a chefndir

1.1 Cefndir yr ymchwil hwn

Yng ngoleuni Cwricwlwm i Gymru (CiG) a'r diwygiadau cysylltiedig i'r system addysg yng Nghymru, mae gan Lywodraeth Cymru gorff cynyddol o lenyddiaeth sy'n cynnig cyd-destun ar gyfer deall sut y gall rhieni a gofalwyr ymgysylltu ag ysgolion a sut mae ysgolion yn meithrin perthynas o gydweithio rhwng yr ysgol a'r cartref/teulu. Er enghraifft, wrth ddatblygu eu gweledigaeth ar gyfer CiG, disgwylir i ysgolion gynnal 'sgwrs barhaus' ar draws yr ysgol gyfan a thu hwnt drwy ymgysylltu hefyd â rhieni a gofalwyr a'r gymuned ehangach (Llywodraeth Cymru, 2022). Ystyrir rhieni a gofalwyr yn 'bartneriaid dysgu' hefyd ac anogir ysgolion i gynnwys rhieni, gofalwyr, a'r gymuned leol wrth ddylunio'r cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae Fframwaith Llywodraeth Cymru ar ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol yn enghraifft arall, gan ei fod yn pwysleisio ymgysylltiad rhagweithiol ysgolion â rhieni a gofalwyr, gan gynnwys eu gwahodd i gyfrannu at weithgareddau i sicrhau bod mentrau llesiant yn gynhwysol ac yn cael eu datblygu ar y cyd (Llywodraeth Cymru, 2026a). Mae mentrau addysg eraill Llywodraeth Cymru, fel Ysgolion Bro a'r cynllun Profi Tlodi, hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ysgolion yn meithrin perthynas agosach â rhieni a gofalwyr a'u cynnwys yn addysg eu plant.

Yn fwy diweddar, mae Rhaglen Lywodraethu 2026-2030 (Llywodraeth Cymru, 2026) yn amlinellu nod Llywodraeth Cymru i gefnogi athrawon gydag 'ymagwedd gyfannol amlasiantaeth' o ymdrin ag ymddygiad a llesiant, ac i rannu data ac arferion gorau yn lleol ac yn genedlaethol. Mae hyn oherwydd y cydnabyddir bod cyfraddau absenoldeb ysgol parhaus, yn ogystal â heriau ymddygiadol ac iechyd meddwl, wedi golygu bod athrawon yn treulio mwy o amser yn rheoli amgylchedd yr ystafell ddosbarth a llai o amser yn cyflwyno'r dysgu. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi y bydd y dull hwn yn cael ei gyflawni drwy gydlynu fframwaith sy'n dwyn ynghyd ysgolion, gofal iechyd a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau ieuenctid i fynd i'r afael ag ymddygiad, presenoldeb a llesiant, yn ogystal ag anghydraddoldeb addysgol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella dysgu proffesiynol, adrodd ar ddigwyddiadau, a rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion, a bydd yn profi'r broses o weithredu hyn drwy ei chynlluniau peilot Ysgolion Bro a Mwy.

Y tu hwnt i gylch gwaith uniongyrchol yr ysgol, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth i rieni a gofalwyr drwy raglen Dechrau'n Deg yn y sector blynyddoedd cynnar, lle mae 12.5 awr o ofal plant Dechrau'n Deg ar gael yn raddol i bob plentyn 2 oed ledled Cymru, gan ddechrau gyda'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyntaf. Yn fwy cyffredinol, mae menter Llywodraeth Cymru, Magu Plant. Rhowch amser iddo. yn darparu cyngor arbenigol ac awgrymiadau ymarferol am ddim ar gyfer heriau rhianta. Ar ben hynny, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i chynllunio i helpu rhieni, gofalwyr a theuluoedd i dderbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt drwy wasanaethau hygyrch. Drwy ei ddull amlasiantaeth, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd fel rhan o'r fenter Tîm o

Amgylch y Teulu i helpu i sicrhau bod teuluoedd yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt heb orfod mynd drwy nifer o systemau a phwyntiau mynediad.

Er bod llawer o ddulliau polisi yn annog ymgysylltiad a chyfranogiad rhieni a gofalwyr mewn addysg yng Nghymru, mae'r sail dystiolaeth gyfredol yn awgrymu nad yw disgwyliadau rhieni a gofalwyr o rolau ysgolion o reidrwydd yn gyson ar draws gwahanol grwpiau rhieni a gofalwyr. Felly, mae archwilio disgwyliadau rhieni a gofalwyr ymhellach yng Nghymru yn allweddol, gan y gall disgwyliadau gwahanol rhwng rhieni a gofalwyr, ysgolion a gwasanaethau ehangach greu camddealltwriaeth, cynyddu pwysau ar ysgolion ac effeithio ar hyder rhieni a gofalwyr.

Gall disgwyliadau rhieni a gofalwyr ynghylch y ffin rhwng y cartref a'r ysgol amrywio gan ddibynnu ar y cyd-destun yng Nghymru. Er enghraifft, mae meysydd sy'n gofyn am arbenigedd, fel nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, yn rhoi mwy o alw ar ysgolion yng Nghymru, gan fod rhieni a gofalwyr yn llai tebygol o allu nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu na gweithwyr proffesiynol lleferydd, iaith a chyfathrebu (Tisteel et al., 2025). Mae llawer o rieni a gofalwyr yn gweld ysgolion ac addysg gynnar fel pethau hanfodol ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac ymddygiadol plant (Hughes a Jones, 2021). Yn wir, canfu adolygiad o arferion a ddefnyddir mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i atal gwaharddiadau yng Nghymru, er bod ymgysylltiad rhieni a gofalwyr yn bwysig wrth nodi materion sylfaenol sy'n effeithio ar ymddygiad heriol plentyn, nododd rhieni a gofalwyr hefyd y byddent yn hoffi cyngor ar ddatblygu eu sgiliau rhianta ac i ddeall sut i helpu i gefnogi anghenion eu plentyn (Wilson et al., 2023). Ar ben hynny, mae gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru yn dangos bod profiadau ymgysylltu rhieni a gofalwyr yn amrywio ar draws ysgolion (Thomas et al., 2025). Yn y gwerthusiad hwn, amlygodd yr arolwg rhieni a gofalwyr brofiadau cymysg gyda gwahaniaethau o ran eglurder, cyfathrebu a chyfranogiad mewn prosesau ADY. Yn ddiweddar, canfu ymchwil ar raglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru fod ysgolion yn chwarae rhan gynyddol wrth nodi plant mewn angen, yn enwedig ar ôl COVID-19 (Davies a Campbell, 2025). Adroddwyd bod atgyfeiriadau at Teuluoedd yn Gyntaf yn aml yn gysylltiedig â phresenoldeb ysgol sy'n methu, problemau ymddygiad yn yr ysgol, ac anghenion ADY sy'n dod i'r amlwg.

Fodd bynnag, mae meysydd eraill, fel addysg perthnasoedd a rhywioldeb, yn aml yn cael eu hystyried yn draddodiadol fel gorchwyl teuluol (Thomas et al., 2023). Canfu astudiaeth ansoddol o gredoau, ymddygiadau a rhwystrau sy'n effeithio ar benderfyniadau rhieni a gofalwyr ynghylch gofal plant ac addysg gynnar yng Nghymru fod yn well gan rai teuluoedd i addysg gynnar a chymdeithasoli ddigwydd o fewn y teulu ac felly aros o fewn cylch gwaith y cartref (Hughes a Jones, 2021). Mewn rhai cymunedau ethnig lleiafrifol, roedd rhieni a gofalwyr yn dymuno cynnal normau diwylliannol yn breifat a rheoli disgwyliadau cymdeithasol cyn cyflwyno eu plant i'r ysgol.

Er mwyn deall disgwyliadau rhieni a gofalwyr o ysgolion ymhellach yng nghyd-destun datblygiad plant, mae ystyried y system gymorth ehangach yn bwysig. Mae llawer o gyfrifoldebau y mae rhieni/gofalwyr yn eu priodoli i ysgolion yn gorgyffwrdd â, neu'n gallu bod yn fwy priodol o fewn, gwasanaethau iechyd, blynyddoedd cynnar, a gwasanaethau cymunedol.

O ran y blynyddoedd cynnar, mae ymchwil yng Nghymru yn awgrymu bod ymwelwyr iechyd yn cynnig arweiniad ar faterion datblygiadol, fel mynd i'r tŷ bach neu nodi anghenion iechyd neu glyw, ac yn gweithredu fel eiriolwyr (KilBride et al., 2018; Pope et al., 2013). Yn yr un modd, mae gwasanaethau, gan gynnwys cymorth lleferydd, iaith a chlyw, yn cyfrannu drwy nodi oediadau a darparu ymyriadau sy'n llywio cyfathrebu, ymddygiad a pharodrwydd ar gyfer yr ysgol.

I rieni a gofalwyr dysgwyr oedran ysgol, mae ymchwil yng Nghymru yn dangos bod rhieni a gofalwyr yn ceisio cefnogaeth o amrywiaeth o ffynonellau, er enghraifft gan y teulu, gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys ysgolion, meddygon teulu ac ymwelwyr iechyd, a gwasanaethau awdurdodau lleol, i enwi dim ond rhai (Llywodraeth Cymru, 2013). I lawer o rieni a gofalwyr, gall lleoliad yr ysgol fod yn un rhan o dapestri o lwybrau cymorth.

Y tu hwnt i Gymru, mae corff o lenyddiaeth o systemau addysg y gellir eu cymharu ar sut mae systemau o'r fath yn diffinio ffiniau cyfrifoldebau ysgolion. Er enghraifft, mae'r Adran Addysg yn Lloegr (DfE), yn ei Phapur Gwyn ym mis Chwefror 2026 ar bob plentyn yn cyflawni ac yn ffynnu, yn manylu ar ymrwymiad i ddatblygu disgwyliadau gofynnol ar gyfer ysgolion o ran ymgysylltiad â rhieni a gofalwyr (DfE, 2026). Un thema sy'n codi dro ar ôl tro mewn gwledydd eraill fel y Ffindir, Seland Newydd, y DU a systemau Ewropeaidd yw bod rolau athrawon yn ymestyn y tu hwnt i addysgu yn yr ystafell ddosbarth i gynnwys gweithgareddau sy'n gysylltiedig â llesiant ac sy'n canolbwyntio ar y gymuned (Education Support, 2023; Eklund et al., 2020;McKelvie Sebileau et al., 2025).

1.2 Nodau ac amcanion yr ymchwil

Ceisiodd yr ymchwil hon archwilio dau brif bwynt. Yn gyntaf, bu'n archwilio'r rolau a'r cyfrifoldebau y mae rhieni a gofalwyr yn credu y dylai ysgolion eu cyflawni, a'r rhai y maent yn ystyried y dylent hwy eu cyflawni eu hunain fel rhieni/gofalwyr neu gan wasanaethau eraill. Yn ail, archwiliodd sut y gall polisïau ac arferion gynorthwyo rhieni a gofalwyr i feithrin hyder a gallu i hyrwyddo datblygiad plant ac i geisio cefnogaeth gan sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i'w helpu.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys Synthesis Tystiolaeth Cyflym (RES) a thrafodaethau fforwm agored gyda rhieni a gofalwyr. Casglodd a syntheseiddiodd y RES dystiolaeth o'r DU ac yn rhyngwladol ar sut mae rhieni a gofalwyr yn deall ac yn dyrannu cyfrifoldebau dros ddatblygiad, ymddygiad, presenoldeb a llesiant ar draws

ysgolion a nhw eu hunain fel rhieni/gofalwyr, ac ar fodelau o gyfrifoldeb a rennir gyda gwasanaethau ehangach (e.e., ymwelwyr iechyd, blynyddoedd cynnar, timau amlddisgyblaethol).

Bwriad y trafodaethau fforwm agored oedd casglu tystiolaeth sylfaenol gan rieni a gofalwyr plant oedran ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru. Er bod dyluniad yr ymchwil wedi rhagweld nifer uwch o gyfranogwyr yn wreiddiol, arweiniodd heriau o ran recriwtio at 5 rhiant a gofalwr yn cymryd rhan yn y trafodaethau. Oherwydd y data cyfyngedig a gasglwyd, dim ond crynodeb o'r trafodaethau fforwm agored a ddarperir yn yr adroddiad hwn.

1.3 Strwythur yr adroddiad

Mae strwythur yr adroddiad yn cynnwys y penodau canlynol:

- Mae Pennod 2 yn disgrifio'r dulliau methodolegol a ddefnyddiwyd, sy'n cynnwys y RES a thrafodaethau fforwm agored gyda rhieni a gofalwyr.
- Mae Pennod 3 yn syntheseiddio'r mewnwelediadau allweddol a gafwyd drwy'r RES, gyda chanfyddiadau wedi'u categoreiddio yn ôl cwestiynau ymchwil y RES.
- Mae Pennod 4 yn rhoi crynodeb byr o drafodaethau'r fforwm agored
- Mae Pennod 5 yn gorffen drwy dynnu ynghyd y myfyrdodau allweddol a darparu pwyntiau y gellir gweithredu arnynt i'w hystyried yn y dyfodol.

2. Methodoleg

Mae'r adran hon yn nodi'r dull methodolegol ar gyfer yr ymchwil hon. Defnyddiwyd dull cymysg o ddulliau, gan gynnwys RES o fis Mawrth i fis Mai 2026 a dwy drafodaeth fforwm agored gyda rhieni a gofalwyr plant oedran ysgol yng Nghymru ym mis Mehefin 2026.

2.1 Synthesis Tystiolaeth Cyflym (RES)

Mae RES yn fethodoleg ymchwil gyffredin sy'n caniatáu i ymchwilwyr flaenoriaethu ac adolygu astudiaethau o gorff mawr o ffynonellau o bob cwr o lenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth lwyd, gan ddefnyddio dull tryloyw, wedi'i ddiffinio'n dda, ac y gellir ei atgynhyrchu.

Mae'r adran hon yn cynnwys y broses RES, gan gynnwys (i) cwestiynau ymchwil allweddol, (ii) y strategaeth chwilio ar gyfer llenyddiaeth, a (iii) y meini prawf cynnwys/eithrio a ddefnyddiwyd i benderfynu a yw'r astudiaethau y cafwyd hyd iddynt yn berthnasol i gwestiynau ymchwil yr adolygiad tystiolaeth hwn. Datblygwyd protocol RES ar ddechrau'r ymchwil, gan amlinellu amcanion allweddol yr adolygiad tystiolaeth, y strategaeth chwilio, y meini prawf cynnwys ac eithrio, a'r meini prawf asesu ansawdd ar gyfer y llenyddiaeth a nodwyd. Mae'r protocol RES cyflawn i'w weld yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

2.1.1 Proses RES

Cynlluniwyd y protocol RES i nodi ac asesu tystiolaeth berthnasol o ansawdd uchel i fynd i'r afael â chyfres o gwestiynau ymchwil, fel a ganlyn:

1. Sut mae rhieni/gofalwyr yn diffinio eu cyfrifoldebau eu hunain mewn perthynas â datblygiad cynnar eu plant (e.e., mynd i'r tŷ bach, lleferydd, iaith a chyfathrebu, cymwyseddau cymdeithasol ac emosiynol), ymddygiad a phresenoldeb?

2. Pa gyfrifoldebau y mae rhieni/gofalwyr yn credu y dylai fod gan ysgolion yn y meysydd hyn, a ble maen nhw'n gweld y ffin rhwng cyfrifoldebau'r ysgol a'r cartref?

3. Sut mae disgwyliadau a dealltwriaeth rhieni a gofalwyr o gyfrifoldeb yn amrywio yn ôl cyd-destun, gan gynnwys cyfnod ysgol, cyfrwng iaith, ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion/Addysg heblaw yn yr ysgol, ac ardal ddaearyddol (gan gynnwys trefol/gwledig) ac ar draws gwahanol grwpiau ethnig a chrefyddol?

4. Sut mae rhieni/gofalwyr yn deall, yn cael mynediad at, ac yn profi cymorth gan wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol (e.e. maes iechyd, blynyddoedd cynnar, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau cymunedol) mewn

perthynas â datblygiad, ymddygiad a llesiant eu plant, a sut mae'r profiadau hyn yn llunio disgwyliadau o'r hyn y dylai ysgolion ei ddarparu?

5. Beth ellir ei ddysgu gan wledydd eraill y DU a gwledydd cymharol eraill ynglŷn â sut mae cyfrifoldebau dros ddatblygiad cynnar, ymddygiad a llesiant yn cael eu rhannu rhwng ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol, a sut mae'r trefniadau hyn yn llunio disgwyliadau rhieni a gofalwyr o'r ysgol?

6. Beth yw'r goblygiadau ar gyfer polisi trawslywodraethol, gan gynnwys sut y gellir alinio addysg, iechyd, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau cymunedol yn well i adlewyrchu sut mae rhieni a gofalwyr yn ceisio ac yn defnyddio cymorth ar hyn o bryd, lleihau beichiau diangen ar ysgolion, a chryfhau cydweithio effeithiol rhwng teuluoedd, ysgolion a gwasanaethau ehangach?

Yn gyntaf, sefydlodd y protocol feini prawf o ran cynnwys ymchwil yn y RES, gan nodi'r gwledydd oedd o fewn y cwmpas, iaith y llenyddiaeth, y meysydd ffocws thematig, a dyddiad cyhoeddi'r ymchwil. Yna manylodd ar y strategaeth chwilio, gan amlinellu'r termau chwilio, y cronfeydd data i'w chwilio, a'r gweithdrefnau ar gyfer cadw cofnodion. Yn drydydd, nododd y meini prawf asesu perthnasedd ac ansawdd a ddefnyddiwyd i werthuso cryfder y dystiolaeth.

Cynhaliwyd chwiliadau gan ddefnyddio gweithredwyr Boolean ar draws cronfeydd data a llyfrgelloedd ar-lein, gan gynnwys ERIC, JSTOR, SAGE, SSRN, a Taylor & Francis. Gan gydnabod bod llenyddiaeth lwyd berthnasol hefyd, roedd y protocol yn ymgorffori chwiliad wedi'i dargedu o astudiaethau a gynhyrchwyd gan sefydliadau yn y DU a sefydliadau rhyngwladol, gyda ffocws penodol ar Lywodraeth Cymru, yr Adran Addysg yn Lloegr, a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

Cyn dechrau'r ymchwil hon, roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnal ei chwiliadau mewnol ar yr effaith gymdeithasol ar amser athrawon (e.e. rhedeg banciau bwyd, cynnig gwasanaethau golchi dillad, trefnu deintyddion/optegwyr), gan gynnwys chwiliadau yn y DU ac yn rhyngwladol. Oherwydd natur debyg y pwnc ymchwil hwn i chwiliadau mewnol Llywodraeth Cymru, ychwanegwyd y chwiliadau hyn at y rhestr hir a ddisgrifir isod hefyd.

Arweiniodd y broses o weithredu'r strategaeth chwilio at restr hir gychwynnol o 331 o ddogfennau, ar ôl i gyhoeddiadau dyblyg gael eu dileu. Yna, i gwtogi'r rhestr hir hon, defnyddiodd y tîm ymchwil y meini prawf eithrio canlynol: (i) dyddiad cyhoeddi cyn 2023, (ii) llenyddiaeth nad yw'n Saesneg na Chymraeg, a (iii) gwledydd na ellir eu cymharu â'r DU, ochr yn ochr â sgrinio ychwanegol o ran teitlau, allweddeiriau a chrynodebau i asesu (i) perthnasedd i gwestiynau ymchwil RES a (ii) mathau o gyhoeddiadau. Arweiniodd hyn at gynnwys 24 o gyhoeddiadau ar y rhestr fer. Er mwyn cwtogi'r rhestr fer hon o 24 cyhoeddiad i restr derfynol o 16 cyhoeddiad, cwblhaodd y tîm ymchwil Daflen Detholiad Ymchwil. Ar wahân i deitl yr astudiaethau,

yr awduron, y dyddiad cyhoeddi, y math a'r ffynhonnell, roedd y Daflen Detholiad Ymchwil wedi'i llenwi â gwybodaeth am y wlad/rhanbarth ffocws, crynodeb/crynodeb gweithredol, dull methodolegol, math o grŵp rhieni a gofalwyr a dysgwyr, y cwestiynau ymchwil RES a drafodwyd, a chrynodeb o'r canfyddiadau. Yn olaf, cymhwyswyd system sgorio ansawdd, gan asesu pob astudiaeth o ran hygrededd, dull methodolegol, a pherthnasedd yn ôl amcanion y prosiect. Roedd cwblhau'r Daflen Detholiad Ymchwil yn caniatáu inni gadarnhau'r 16 cyhoeddiad perthnasol terfynol ar gyfer yr ymchwil hon.

Roedd cam olaf y RES yn cynnwys syntheseiddio canfyddiadau allweddol a dynnwyd o'r adolygiad llenyddiaeth. Mae Pennod 3 yr adroddiad hwn yn crynhoi'r mewnwelediadau mwyaf defnyddiol ar gyfer pob un o Gwestiynau Ymchwil y RES.

2.1.2 Heriau a chyfyngiadau

Er bod y cyhoeddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y RES yn rhoi cipolwg ar ddisgwyliadau rhieni a gofalwyr, dylid cadw mewn cof bod y RES hwn wedi'i gynllunio i gynnwys nifer fach o gyhoeddiadau yn unig. Llwyddodd y RES i nodi tystiolaeth yn ymwneud â'r rhan fwyaf o gwestiynau'r ymchwil. Fodd bynnag, nid oedd y sail dystiolaeth yn gyson o ran pynciau, cyd-destunau a grwpiau rhieni a gofalwyr. Er bod tystiolaeth gymharol gryf am ddisgwyliadau rhieni a gofalwyr o addysg, dysgu a datblygiad plant, roedd llai o dystiolaeth ar gael mewn meysydd fel ymddygiad. Yn fwy cyffredinol, mae hefyd yn bwysig nodi mai cymharol gyfyngedig yw’r llenyddiaeth sy'n archwilio canfyddiadau rhieni a gofalwyr o ysgolion yn gyffredinol, yn ogystal â datblygiad plant. I'r gwrthwyneb, mae mwy o lenyddiaeth ynghylch y berthynas a'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol. Yn yr un modd, er bod yr adolygiad wedi nodi tystiolaeth o ystod o leoliadau addysgol ac amgylchiadau rhieni a gofalwyr, ni chafodd yr holl gyd-destunau a nodwyd yn y cwestiynau ymchwil, fel gwahanol fathau o ysgolion, ardaloedd daearyddol, cyfrwng iaith, a grwpiau ethnig neu grefyddol, eu cofnodi'n gynhwysfawr. Roedd y dystiolaeth hefyd yn gryfach ar gyfer rhai grwpiau rhieni a gofalwyr nag eraill, gyda mwy o lenyddiaeth yn ymwneud â theuluoedd mudol, rhieni plant ag ADY, mamau, a theuluoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol. I'r gwrthwyneb, cymharol ychydig o dystiolaeth a nodwyd mewn perthynas â thadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, gofalwyr Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig a gofalwyr sy'n berthnasau. O ganlyniad, mae'r RES yn gallu rhoi gwell mewnwelediad i rai meysydd y cwestiynau ymchwil nag eraill, a dylid dehongli canfyddiadau gan gydnabod y bylchau tystiolaeth sy'n parhau ar draws rhai pynciau, cyd-destunau a grwpiau rhieni a gofalwyr.

2.2 Trafodaethau fforwm agored gyda rhieni a gofalwyr

Ategwyd y mewnwelediadau o'r RES gan drafodaethau fforwm agored gyda rhieni a gofalwyr plant oedran ysgol mewn ysgolion prif ffrwd (sectorau cynradd ac uwchradd) yng Nghymru.

2.2.1 Trafodaethau'r fforwm agored

Bwriad gwreiddiol yr ymchwil oedd ymgysylltu â nifer fwy o gyfranogwyr drwy gyfres o sesiynau trafod; fodd bynnag, yn sgil heriau recriwtio, 5 rhiant a gofalwr a gymerodd ran yn y pen draw. Cynhaliodd y tîm ymchwil 2 drafodaeth fforwm agored ar ffurf cyfweliad ar-lein a grŵp ffocws ar Microsoft Teams. Awr a barodd y sesiwn gyfweld oherwydd mai dim ond 1 cyfranogwr a fynychodd, gyda'r sesiwn grŵp ffocws yn para 1.5 awr oherwydd bod 4 cyfranogwr yn bresennol. Natur led-strwythuredig oedd i'r sesiynau. Archwiliodd y drafodaeth farn rhieni a gofalwyr am eu cyfrifoldebau eu hunain a chyfrifoldebau'r ysgol dros ddatblygiad, ymddygiad a phresenoldeb plant. Archwiliodd hefyd eu profiadau o weithio gydag ysgolion a gwasanaethau cymorth eraill, a'u disgwyliadau ynghylch cyfathrebu, ffiniau a chydweithio i ddiwallu anghenion eu plentyn.

Defnyddiodd y tîm ymchwil amrywiol ddulliau ar gyfer recriwtio i'r sesiynau hyn, gan gynnwys rhannu cyfathrebiadau recriwtio gyda sefydliadau rhieni a gofalwyr cenedlaethol, 77 o Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru, arweinwyr awdurdodau lleol, rheolwyr Ysgolion Bro, Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd ar draws pob un o'r 22 ALl yng Nghymru, a swyddogion cymorth llywodraethwyr ALl. Gofynnwyd i bawb y cysylltwyd â nhw gylchredeg cyfathrebiadau recriwtio drwy eu rhwydweithiau rhieni a gofalwyr. Ychwanegwyd cyfathrebiadau recriwtio ar sianeli cyfathrebu Hwb a Dysg hefyd.

Yn gysylltiedig â chyfathrebiadau recriwtio roedd Ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb i rieni a gofalwyr nodi eu diddordeb mewn mynychu trafodaeth fforwm agored. Cwblhaodd ugain o gyfranogwyr y Mynegiant o Ddiddordeb. Yna dewiswyd y 5 cyfranogwr olaf yn seiliedig ar eu gallu i gadarnhau bod ganddynt blant oedran ysgol yng Nghymru, ac ar eu hymateb i ohebiaeth gwahoddiad dilynol y tîm ymchwil ar gyfer grŵp ffocws.

2.2.2 Heriau a chyfyngiadau

Roedd recriwtio rhieni a gofalwyr i gymryd rhan yn yr ymchwil hon yn heriol. Yn wreiddiol, roedd y tîm ymchwil wedi bwriadu cynnal 3 sesiwn ar-lein 90 munud o hyd – 2 yn Saesneg ac 1 yn Gymraeg – gydag 8 cyfranogwr ym mhob sesiwn (cyfanswm o hyd at 24 cyfranogwr). Fodd bynnag, ni chafwyd digon o ddiddordeb i gynnal 3 sesiwn.

Er bod y tîm ymchwil wedi rhannu cyfathrebiadau recriwtio gydag ystod eang o sefydliadau ac unigolion i'w dosbarthu i'w rhwydweithiau rhieni a gofalwyr yng Nghymru, dim ond nifer fach o rieni a gofalwyr (n=20) a fynegodd ddiddordeb mewn ymuno â thrafodaeth fforwm agored, a mynychodd nifer llai y sesiynau go iawn (n=5).

Oherwydd natur tymor byr y prosiect hwn, nid oedd y dewis a'r dull cyfranogiad yn caniatáu cynrychiolaeth ddemograffig lawn o rieni a gofalwyr yng Nghymru. Roedd

cymryd rhan yn hunan-ddewisol, gan ddibynnu ar sefydliadau ac unigolion yn rhannu'r cyfathrebiadau recriwtio gyda rhieni a gofalwyr, a rhieni a gofalwyr yn mynegi diddordeb mewn ymuno â thrafodaeth fforwm agored a chael yr amser i wneud hynny, boed hynny yn ystod amser cinio neu gyda'r nos. Yn anochel, bu hyn yn gyfrifol am siapio cyfansoddiad y grŵp rhieni a'r gofalwyr a ddewisodd ymgysylltu, ac roedd y mwyafrif ohonynt yn bobl oedd eisoes yn ymwneud yn weithredol ag ysgol eu plentyn a/neu gymuned yr ysgol. O ystyried nifer fach y grŵp penodol o rieni a gofalwyr a ymgysylltodd, ni ddylid darllen eu barn fel pe bai'n cynrychioli barn y boblogaeth ehangach o rieni a gofalwyr yng Nghymru. Felly, dim ond crynodeb byr o'u barn a ddarperir ym Mhennod 4.

3. Synthesis Tystiolaeth Cyflym (RES)

Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r mewnwelediadau allweddol o'r RES ac yn trefnu'r canfyddiadau'n thematig i gyd-fynd â chwestiynau ymchwil y RES.

3.1 Natur ac ansawdd y sail dystiolaeth

Mae llawer o'r dystiolaeth yn dod o ymchwil yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, gan gynnwys dadansoddiadau eang ac astudiaethau mwy cyd-destunol-benodol o Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon, a'r Alban, wedi'u hategu gan safbwyntiau rhyngwladol, yn enwedig o lenyddiaeth yr OECD.

Llwyddodd y RES i ddod o hyd i dystiolaeth ar sut mae rhieni a gofalwyr yn gweld cyfrifoldebau dros ddatblygiad, ymddygiad, presenoldeb a llesiant plant ar draws y cartref, yr ysgol a gwasanaethau cymorth ehangach (cwestiynau ymchwil RES 1, 2, 4). Er bod y RES wedi nodi'r themâu hyn, roedd mwy o lenyddiaeth ynghylch disgwyliadau rhieni a gofalwyr ynghylch addysg a datblygiad cyffredinol nag oedd ar feysydd fel ymddygiad. Yn ogystal, archwiliodd astudiaethau a oedd yn cynnwys rhieni a gofalwyr plant mewn addysg gynradd ac uwchradd, ochr yn ochr â nifer llai o bapurau oedd yn mynd i'r afael â'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi sy'n siapio perthynas cartref-ysgol. Nododd hefyd wersi a ddysgwyd o sut mae cyfrifoldebau'n cael eu dyrannu mewn gwledydd eraill yn y DU a gwledydd cymharol (cwestiwn ymchwil 5 RES), a'r goblygiadau ar gyfer polisi trawslywodraethol ar gyfer alinio addysg, iechyd, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau cymunedol yn well i gryfhau cydweithio a lleihau pwysau ar ysgolion (cwestiwn ymchwil 6 RES).

Cynlluniwyd un o gwestiynau ymchwil RES (rhif 3) i archwilio'r amrywiad o ran disgwyliadau rhieni a gofalwyr ar draws ystod o gyd-destunau, gan gynnwys cyfnod ysgol, cyfrwng iaith, ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion/Addysg heblaw yn yr ysgol, ardaloedd daearyddol, a gwahanol grwpiau ethnig a chrefyddol. Fodd bynnag, nid oedd y llenyddiaeth sydd ar gael yn darparu tystiolaeth gynhwysfawr ar draws yr holl gyd-destunau hyn. Yn hytrach, canfu lenyddiaeth o ran disgwyliadau rhieni a gofalwyr yn newid oherwydd anghenion eu plant, yn ogystal â chyd-destunau economaidd-gymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol rhieni a gofalwyr, yn ogystal ag amrywiadau yn y cyd-destun ôl-COVID-19. Yn ogystal â chasglu barn gyffredinol y grŵp rhieni a gofalwyr cyfan, roedd y proffiliau rhieni a gofalwyr a archwiliwyd yn y RES yn bennaf yn rhai teuluoedd mudol, rhieni a gofalwyr plant ag ADY, mamau, a theuluoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol. Yn y RES, canfuwyd llai ar dadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, gofalwyr Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig a gofalwyr sy'n berthnasau. Mae'n bwysig nodi y gall disgwyliadau grwpiau o'r fath o'r ysgol fod yn wahanol iawn. Felly roedd y llenyddiaeth oedd ar gael yn gryfach ar gyfer rhai grwpiau ac amgylchiadau rhieni a gofalwyr nag eraill, ac nid oedd yn darparu sylw cynhwysfawr ar draws yr holl gyd-destunau a gynhwysir yn y cwestiwn ymchwil hwn.

3.2 Canfyddiadau rhieni a gofalwyr o'u cyfrifoldebau eu hunain

Mae'r llenyddiaeth yn tynnu sylw at sawl ffordd y mae rhieni a gofalwyr yn deall eu cyfrifoldebau dros ddatblygiad eu plant. Mae'r prif themâu'n cynnwys rhieni a gofalwyr yn gweld eu hunain fel partneriaid dysgu, er gwaethaf rhai heriau, amrywiad mewn cyfrifoldebau canfyddedig ar draws gwahanol grwpiau rhieni a gofalwyr, a safbwyntiau ar rolau rhieni a gofalwyr o ran presenoldeb ac ymddygiad.

3.2.1 Partneriaid dysgu er gwaethaf heriau

Mae'r ymchwil yn awgrymu bod rhieni a gofalwyr yn ystyried eu hunain yn gefnogwyr, yn eiriolwyr ac yn wneuthurwyr penderfyniadau gweithredol ynghylch datblygiad eu plant. Er enghraifft, mewn astudiaeth gyda staff a rhieni a gofalwyr o 7 ysgol gynradd yn Lloegr, mae Levy (2024) yn tynnu sylw at sut, yn dilyn pandemig COVID-19, roedd rhieni a gofalwyr yn gweld eu hunain fwyfwy fel partneriaid dysgu. Roedd mwy o gyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol yn golygu bod rhieni a gofalwyr yn ymgysylltu mwy â gwersi eu plant ac yn cefnogi dysgu dyddiol, gan gryfhau eu dealltwriaeth o addysgu ac atgyfnerthu eu hymdeimlad o gyfrifoldeb dros ymgysylltiad a datblygiad eu plant.

Gan adeiladu ar yr ymdeimlad cryfach hwn o bartneriaeth, mae rhieni a gofalwyr hefyd yn disgrifio eu cyfrifoldebau fel rhai sy'n ymestyn i ddysgu ffurfiol ac anffurfiol gartref. Mae llawer o rieni a gofalwyr yn credu eu bod yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi dysgu eu plant drwy weithgareddau strwythuredig fel gwaith cartref a darllen, yn ogystal â thrwy brofiadau bob dydd. Mae Bond, Moore, a Hawkins (2025) yn dangos yn eu hastudiaeth o ysgolion mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig yng Nghymru fod teuluoedd yn cefnogi dysgu nid yn unig drwy dasgau ffurfiol, fel gwaith cartref neu ddarllen, ond hefyd drwy weithgareddau anffurfiol fel coginio, crefftau, gemau a chwaraeon, y maent yn eu hystyried yn werthfawr ar gyfer datblygu sgiliau bywyd.

Adlewyrchir y canfyddiad hwn o gyfrifoldeb mewn patrymau ehangach o ymgysylltiad rhieni a gofalwyr. Yn ôl Verian (2026), mae canfyddiadau o'r panel Rhieni, Disgyblion a Dysgwyr yn Lloegr yn dangos bod cyfranogiad rhieni a gofalwyr mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn parhau i fod yn uchel yn gyffredinol, yn enwedig ar lefel yr ysgol gynradd. Mae canfyddiadau'n awgrymu bod y rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn mynychu nosweithiau rhieni a digwyddiadau ysgol, ac mae llawer o rieni a gofalwyr cynradd yn hunan-adrodd eu bod ar gael yn gyson i helpu gyda gwaith cartref. Mae rhieni a gofalwyr hefyd yn aml yn cefnogi dysgu gartref drwy ddarllen gyda'u plant, trafod gwaith ysgol, a darparu adnoddau dysgu, gyda rhieni a gofalwyr a phlant yn hunan-adrodd bod ganddynt hyder uchel yn y gefnogaeth sydd ar gael gartref. Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth hon yn aml yn lleihau wrth i blant fynd yn hŷn, yn enwedig yn yr ysgol uwchradd, lle mae presenoldeb rhieni a gofalwyr mewn digwyddiadau ysgol, er enghraifft, yn dod yn llai aml.

Er gwaethaf parodrwydd rhieni a gofalwyr i gefnogi dysgu, gall sawl rhwystr gyfyngu ar eu hymgysylltiad â dysgu eu plentyn. Gall anawsterau fel amser cyfyngedig, pethau sy'n tynnu sylw yn y cartref, amgylchiadau economaidd-gymdeithasol heriol, problemau iechyd a rhwystrau iaith leihau gallu rhieni a gofalwyr i ymgysylltu. Fel y nodwyd gan Bond, Moore, a Hawkins (2025), gall rhai rhieni a gofalwyr roi mwy o bwyslais ar brofiadau dysgu ymarferol neu anffurfiol gartref oherwydd eu bod yn eu hystyried yr un mor werthfawr, neu hefyd oherwydd y gallai rhai deimlo'n llai hyderus yn cefnogi pynciau academaidd fel mathemateg neu Saesneg.

3.2.2 Canfyddiadau'n amrywio yn ôl gwahanol broffiliau rhieni a gofalwyr

Mae'r llenyddiaeth hefyd yn awgrymu bod barn rhieni a gofalwyr am eu rolau yn cael ei siapio gan eu perthynas â'r ysgol ac amgylchiadau ehangach. Er enghraifft, mewn astudiaeth yn archwilio partneriaethau cartref-ysgol gyda rhieni a gofalwyr mudol yng Ngogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon gan Skinner et al. (2025) canfuwyd bod llawer o rieni a gofalwyr o'r farn mai eu cyfrifoldeb nhw oedd deall system yr ysgol, gan gynnwys y cwricwlwm, trefn yr ystafell ddosbarth, rheolau'r ysgol, a'r calendr. Fodd bynnag, gall rhwystrau iaith a diffyg hyder gyfyngu ar allu rhieni a gofalwyr i lywio'r system addysg yn effeithiol a chefnogi dysgu eu plant yn llawn. Yn yr un modd , mae Corrado (2025) yn nodi, yn eu hastudiaeth am ymwneud rhieni a gofalwyr Affricanaidd â system addysg y DU, fod rhieni a gofalwyr yn aml yn wynebu disgwyliadau diwylliannol ychwanegol a phwysau economaidd a all gyfyngu ar eu lefel o ymgysylltiad â'r ysgol, hyd yn oed pan fyddant yn parhau i fod wedi ymrwymo'n gryf i gefnogi datblygiad ac addysg eu plant.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae llawer o rieni a gofalwyr yn parhau i fod yn benderfynol o gefnogi addysg eu plant. Mae rhieni a gofalwyr mudol, er enghraifft, yn cynnal ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb tuag at addysg eu plant ac yn chwilio'n weithredol am ffyrdd o gydweithio ag ysgolion. Mewn achosion o'r fath, mae rhai rhieni a gofalwyr yn cydweithio ag ysgolion fel dehonglwyr i deuluoedd eraill neu'n dysgu tasgau penodol y mae angen cymorth ar eu plant ar eu cyfer gartref (Skinner et al., 2025). Gydag arweiniad gan staff yr ysgol, gall rhieni a gofalwyr feithrin eu hyder a'u sgiliau, gan ddangos y gall partneriaethau cefnogol rhwng yr ysgol a'r rhiant/gofalwr helpu i oresgyn rhwystrau a chryfhau cyfranogiad rhieni a gofalwyr (Skinner et al., 2025).

Yn yr un modd, amlygodd astudiaeth o famau yn Lloegr o deuluoedd incwm isel fod mamau'n parhau i fod yn ymrwymedig i fynychu digwyddiadau ysgol pryd bynnag y bo modd, gan ddefnyddio eu cyfranogiad i gryfhau'r berthynas â'u plant (Nurse, 2025). Rhoddodd yr ymgysylltiad hwn ag ysgolion eu plant gyfle i rai o'r mamau a oedd wedi gadael yr ysgol yn 16 a 17 oed ailgysylltu ag addysg eu hunain, gan amlygu sut y gall cynnwys rhieni a gofalwyr gefnogi dysgu plant a datblygiad personol rhieni a gofalwyr (Nurse, 2025).

Mae ymchwil yn awgrymu bod rhieni a gofalwyr plant ag ADY yn ystyried eu hunain yn gyfrifol am eiriol dros ddarpariaeth briodol o wasanaethau ac addysg i'w plant. Er enghraifft, fel y mae Cummins a Hayton (2024) yn ei ddisgrifio yn eu hastudiaeth gyda rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg yn y DU, mae rhieni a gofalwyr yn aml yn eiriol dros gymorth addysgol ac iechyd meddwl arbenigol, yn enwedig lle nad oes gan staff cymorth wybodaeth arbenigol, a all leihau hyder rhieni a gofalwyr mewn cymorth yn yr ysgol. Yn yr un modd, fel y mae Bridgeman (2025) yn ei ddangos yn eu hastudiaeth gyda rhieni a gofalwyr plant ag ADY yng Nghymru, mae rhieni a gofalwyr yn nodi pwysigrwydd deall hawliau eu plant a chymryd rhan mewn penderfyniadau addysgol, yn enwedig lle mae heriau ymddygiadol neu waharddiadau yn digwydd.

3.2.3 Rôl rhieni a gofalwyr mewn presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol

Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod presenoldeb yn aml yn cael ei ddeall fel rhywbeth pwysig ond ei fod yn cael ei negodi o fewn yr amgylchiadau teuluol, ac fel rhywbeth y mae rhieni a gofalwyr yn penderfynu arno. Er enghraifft, mewn astudiaeth o rieni a gofalwyr yn Lloegr, mae Burtonshaw a Dorrell (2023) yn adrodd bod rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi presenoldeb da, ond mae rhai yn cyfiawnhau absenoldebau oherwydd bod pobl yn ystyried bod gwyliau yn ystod y tymor yn fwyfwy derbyniol, gan adlewyrchu cred rhieni a gofalwyr yn eu hunanreolaeth i wneud penderfyniadau. Mae rhieni a gofalwyr o'r fath yn ystyried hyn yn dderbyniol yn y cyfnod ar ôl COVID-19 ond nodwyd sut roeddent o'r farn na fyddai hyn wedi bod yn dderbyniol cyn hyn. Hefyd, mae Thomas (2025) yn dangos, o safbwynt rhieni a gofalwyr yng Nghymru sydd â phlant ag ADY, fod gwendidau mewn ysgolion o ran hyrwyddo presenoldeb, o ystyried nad oedd y rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn ymwybodol o ganran presenoldeb eu plant a chanlyniadau hirdymor absenoldebau. Gall rhieni a gofalwyr hefyd weld rheoli ymddygiad fel cyfrifoldeb a rennir gydag ysgolion, yn enwedig pan ganfyddir bod arferion yr ysgol yn annigonol i gefnogi anghenion plant (Zeedyk et al., 2024).

3.3 Canfyddiadau rhieni a gofalwyr o gyfrifoldebau ysgolion

Mae'r ymchwil yn dangos bod rhieni a gofalwyr o'r farn bod ysgolion yn gyfrifol am lawer mwy na dim ond addysgu academaidd, gan ei gwneud hi'n aneglur ar adegau ble maen nhw'n gweld y ffin cyfrifoldeb rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae hyn yn ymwneud â rheoli'r ystafell ddosbarth, llesiant emosiynol, plant ag ADY, plant niwroamrywiol, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, partneriaethau cartref-ysgol, ymgynghori â rhieni a gofalwyr, a phresenoldeb yn yr ysgol. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn adlewyrchu dealltwriaeth ehangach o ysgolion fel partneriaid canolog wrth gefnogi dysgu, llesiant a datblygiad hirdymor plant.

3.3.1 Rheolaeth yr ystafell ddosbarth ac ymddygiad

Mae ymchwil gan Levy (2024) yn tynnu sylw at y ffaith bod rhieni a gofalwyr yn Lloegr o'r farn bod ysgolion yn gyfrifol nid yn unig am addysgu cynnwys academaidd

ond hefyd am reoli ystafelloedd dosbarth yn effeithiol a chynnal ymddygiad cadarnhaol. Yn ystod pandemig COVID-19, cynyddodd werthfawrogiad rhieni a gofalwyr o waith, ymroddiad a phroffesiynoldeb athrawon. Fodd bynnag, roedd hyn hefyd yn atgyfnerthu disgwyliadau y dylai ysgolion ddarparu gwersi strwythuredig, adnoddau dysgu hygyrch, a sicrhau cyfathrebu tryloyw a chyfrifol â rhieni a gofalwyr, gan symud o gyfathrebu unffordd i gyfnewidiadau dwyffordd mwy cydweithredol sy'n cefnogi dysgu a llesiant plant.

3.3.2 Llesiant emosiynol

Y tu hwnt i gefnogaeth academaidd, mae rhieni a gofalwyr yn pwysleisio cyfrifoldeb ysgolion i hyrwyddo llesiant emosiynol plant ac i greu amgylcheddau gofalgar a chefnogol. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Evans et al. (2025), mewn dwy ysgol mewn cymunedau â lefelau cymharol uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru, yn tynnu sylw at y ffaith bod rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi ysgolion sy'n mabwysiadu moeseg gofal, lle mae staff yn meithrin perthynas ymddiriedus â theuluoedd ac yn darparu cefnogaeth gymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol wedi'i theilwra. Yn ogystal, fel y mae Levy (2024) yn ei danlinellu, mae rhieni a gofalwyr yn credu y dylai ysgolion fod yn sensitif i amgylchiadau teuluol, fel amgylchiadau economaidd-gymdeithasol a darparu cefnogaeth wedi'i theilwra. Yn yr un modd, mae Nurse (2025) yn nodi bod canfyddiadau mamau o amgylchedd yr ysgol yn cael eu dylanwadu'n gryf gan ba mor ddiogel, croesawgar a chynhwysol y mae'r amgylcheddau hynny'n teimlo.

3.3.3 Plant ag ADY

Mae rhieni a gofalwyr plant ag ADY yn aml yn rhoi pwyslais arbennig ar gyfrifoldeb ysgolion i ddarparu gwybodaeth arbenigol, addasiadau priodol ac amgylcheddau dysgu cynhwysol. Mae Cummins a Hayton (2024), yng nghyd-destun plant â nam ar eu golwg yn y DU, yn adrodd nad oes gan lawer o rieni a gofalwyr lawer o hyder yn y staff addysgu, gan nad ydynt yn credu bod staff addysgu wedi'u hyfforddi'n ddigonol i addysgu plant ag ADY, gan amlygu'r disgwyliad gan rieni a gofalwyr y dylai ysgolion gyflogi staff gwybodus a all ddiwallu anghenion penodol plant. Yn yr un modd, mae ymchwil yn awgrymu, yng nghyd-destun Cymru, y gallai rhieni a gofalwyr ddisgwyl i ysgolion weithredu cynlluniau cymorth unigol yn effeithiol, nodi'r anghenion hynny yn brydlon a chefnogi atgyfeiriadau plant ag ADY, a chynnwys rhieni a gofalwyr yn fwy mewn penderfyniadau addysgol yn hytrach na dim ond eu hysbysu am ganlyniadau (Bridgeman 2025; Thomas 2025). Er enghraifft, gwella sianeli cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni a gofalwyr fel eu bod yn fwy gwybodus am ddatblygiad eu plant.

3.3.4 Plant niwroamrywiol

Mae'r llenyddiaeth yn dangos bod rhieni a gofalwyr plant niwroamrywiol yn mynegi'r angen i ysgolion ddarparu mwy o gefnogaeth sy'n seiliedig ar niwroamrywiaeth ac yn awgrymu y gallai gwella cefnogaeth ysgolion leihau'r baich ar wasanaethau iechyd meddwl (Ashworth et al., 2025). Er enghraifft, mae mamau plant ag anhwylder

sbectrwm awtistiaeth (ASD) yn disgwyl i ysgolion ac athrawon greu amgylcheddau ystafell ddosbarth diogel, strwythuredig ac ymwybodol o'r synhwyrau sy'n cefnogi dysgu a llesiant eu plant (Zeedyk et al., 2024). Mae rhieni a gofalwyr hefyd yn disgwyl i athrawon ddangos hyfforddiant a dealltwriaeth briodol o anghenion unigol eu plant (Ashworth et al., 2025; Zeedyk et al., 2024).

3.3.5 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae rhieni a gofalwyr hefyd yn disgwyl i ysgolion greu amgylcheddau dysgu cynhwysol a pharchus sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth a datblygiad cymdeithasol. Canfu Keating a Baker (2024), yn lwerddon, gefnogaeth gref gan rieni a gofalwyr i ysgolion ddarparu addysg strwythuredig, sy'n briodol i oedran ar gydraddoldeb rhywedd a chynhwysiant lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, cwiar, a rhyngryw (LHDTCRh). Roedd rhieni a gofalwyr o'r farn bod ysgolion yn gyfrifol am herio stereoteipiau, meithrin perthnasoedd parchus, a chreu man diogel lle gall plant archwilio'r pynciau hyn yn agored. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn ymestyn i alluogi rhieni a gofalwyr i gefnogi dysgu gartref drwy arweiniad ac adnoddau a rennir.

3.3.6 Partneriaethau cartref-ysgol

Cyfrifoldeb allweddol arall a nodwyd gan rieni a gofalwyr yw datblygu partneriaethau cryf rhwng y cartref a'r ysgol sy'n gynhwysol o gefndiroedd amrywiol. Mae Skinner et al. (2025) yn tynnu sylw at y ffaith bod rhieni a gofalwyr, yn enwedig y rhai o gefndiroedd mudol, yn disgwyl i ysgolion fod yn rhagweithiol wrth groesawu teuluoedd, gwerthfawrogi gwahanol ieithoedd a diwylliannau, a darparu cyfleoedd i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol. Yn yr un modd, mae Bond, Moore, a Hawkins (2025) yn nodi bod rhieni a gofalwyr yn disgwyl i ysgolion symud y tu hwnt i gyfleoedd ymgysylltu goddefol a chreu ffyrdd ystyrlon i deuluoedd gyfrannu at weithgareddau'r ysgol.

3.3.7 Ymgynghori â rhieni a gofalwyr ar benderfyniadau

Mae rhieni a gofalwyr hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd bod yr ysgol yn ymgynghori â nhw mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu plant, gan y gall cael eu heithrio o wneud penderfyniadau danseilio ymddiriedaeth a chreu teimladau o gael eu hymylu. Er enghraifft, canfu astudiaeth a archwiliodd rwystrau i gyfranogiad a brofir gan rieni a gofalwyr Affricanaidd o fewn system addysg y DU fod rhai cyfranogwyr yn credu bod diffyg cyfathrebu a chynhwysiant mewn gweithgareddau yn cyfrannu at gamddealltwriaeth am deuluoedd Affricanaidd ac yn cyfyngu ar fynediad at wybodaeth bwysig am ysgolion, fel newidiadau mewn systemau graddio neu lwybrau academaidd y gallai plant fod yn eu dewis (Corrado, 2025). Yn gysylltiedig â hyn mae Evans et al. (2025), yng nghyd-destun y system addysg yng Nghymru, yn dangos bod rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi cael cyfleoedd i rannu eu barn a theimlo bod staff ysgolion yn gwrando arnynt, gan fod hyn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth a chryfhau cydweithio rhwng teuluoedd ac ysgolion, gan ei gwneud hi'n haws yn y pen draw i gefnogi dysgu a llesiant plant.

3.3.8 Presenoldeb yn yr ysgol

Yn olaf, mae rhieni a gofalwyr yn credu bod ysgolion yn gyfrifol am gefnogi presenoldeb a chydnabod yr amgylchiadau ehangach sy'n effeithio ar deuluoedd. Mae ymchwil Burtonshaw a Dorrell (2023) yn Lloegr yn awgrymu bod rhieni a gofalwyr yn disgwyl i ysgolion ddangos hyblygrwydd a dealltwriaeth ynghylch materion fel salwch, tlodi ac anawsterau trafnidiaeth. Mae rhieni a gofalwyr hefyd yn tynnu sylw at yr angen am gyfathrebu cywir ynghylch presenoldeb a'r defnydd parhaus o dechnoleg i gefnogi plant na allant fynychu'r ysgol mewn person. Mae'r disgwyliadau hyn yn atgyfnerthu'r gred bod ysgolion yn rhannu cyfrifoldeb nid yn unig am addysg ond hefyd am gefnogi plant a theuluoedd o fewn eu cyd-destunau cymdeithasol ehangach.

3.4 Canfyddiadau o gefnogaeth gan wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol

Mae profiadau rhieni a gofalwyr gyda gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol yn aml yn cael eu nodweddu gan ddibyniaeth a rhwystredigaeth ar yr un pryd. Er bod rhieni a gofalwyr yn cydnabod pwysigrwydd cymorth iechyd a llesiant proffesiynol, maent yn nodi anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau, llywio'r llwybrau atgyfeirio, a chynnal cyfathrebu effeithiol â'r gwasanaethau hyn. Mae'r profiadau hyn yn arwain llawer o rieni a gofalwyr i ddisgwyl i ysgolion weithredu fel cydlynwyr cymorth canolog, gan ddarparu canllawiau, hwyluso atgyfeiriadau, cynnal cyfathrebu cryf â gweithwyr proffesiynol allanol, a datblygu amgylcheddau cynhwysol sy'n mynd i'r afael ag anghenion plant cyn i anawsterau waethygu.

3.4.1 Mynediad at wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol

Mae llawer o rieni a gofalwyr yn cael mynediad at wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol drwy lwybrau iechyd a llesiant, yn enwedig pan fydd pryderon yn codi ynghylch datblygiad emosiynol neu ymddygiadol eu plant. Mae tystiolaeth ryngwladol yn tynnu sylw at y ffaith bod ysgolion yn aml yn cydweithio â gweithwyr proffesiynol fel cwnselwyr, seicolegwyr, gweithwyr cymdeithasol a nyrsys i gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant (OECD, 2025). Yn aml, mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys rhaglenni ataliol ar gyfer pob dysgwr, ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer plant sydd mewn perygl, a chymorth arbenigol i'r rhai sydd eisoes yn profi anawsterau. Yn gyffredinol, mae rhieni a gofalwyr yn cydnabod gwerth y cydweithio hwn, gan y gall gweithio gyda gweithwyr proffesiynol hyfforddedig gryfhau canlyniadau ymddygiadol, gwella llesiant emosiynol, a lleihau pwysau ar athrawon. Fodd bynnag, fel y mae'r OECD (2025) yn ei amlygu, mae effeithiolrwydd partneriaethau o'r fath yn aml yn dibynnu ar ba mor dda y mae ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau allanol yn cyfathrebu ac yn cydlynu eu rolau.

3.4.2 Heriau cael mynediad at wasanaethau a chanfyddiadau o rôl yr ysgol

Er gwaethaf argaeledd systemau cymorth allanol, mae llawer o rieni a gofalwyr yn nodi heriau sylweddol wrth gael mynediad at wasanaethau, yn enwedig cymorth iechyd meddwl. Canfu Ashworth et al. (2025) fod rhieni a gofalwyr plant ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yn y DU yn aml yn cael trafferth cael atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS), gan brofi amseroedd aros hir, llwybrau atgyfeirio aneglur, a chyfathrebu gwael rhwng ysgolion, gweithwyr iechyd proffesiynol, a theuluoedd. Mewn llawer o achosion, byddai rhieni a gofalwyr yn ceisio cymorth gan feddygon teulu neu ysgolion yn gyntaf, ond gall hyn fod yn broses araf. Yn aml, roedd yr anawsterau hyn yn golygu bod teuluoedd yn teimlo bod yn rhaid iddynt gyrraedd pwynt argyfwng cyn derbyn cymorth. Fe wnaeth profiadau o'r fath siapio disgwyliadau rhieni a gofalwyr am yr ysgol, gyda llawer yn credu y gallai gwell hyfforddiant i staff, amgylcheddau dysgu hyblyg, a chefnogaeth arbenigol o fewn ysgolion leihau dibyniaeth ar wasanaethau allanol ac atal anawsterau iechyd meddwl rhag gwaethygu.

Gall rhwystrau diwylliannol, cymdeithasol a gwybodaeth hefyd ddylanwadu ar brofiadau rhieni a gofalwyr o lywio systemau ehangach. Mae Corrado (2025) yn tynnu sylw at y ffaith bod rhai rhieni a gofalwyr Affricanaidd yn y DU yn teimlo'n ynysig wrth gefnogi plant ag ADY, yn rhannol oherwydd ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r gwasanaethau sydd ar gael ac anawsterau wrth ddeall sut i gael mynediad at gyllid, cwnsela, neu gymorth arbenigol. Mynegodd rhai cyfranogwyr yn yr astudiaeth awydd am systemau cyfathrebu mwy effeithiol i gefnogi rhieni a gofalwyr sy'n fewnfudwyr sydd newydd gyrraedd a'u teuluoedd i ddeall a llywio system y DU, gan alluogi mwy o gyfranogiad. I deuluoedd sy'n newydd i system addysg, gall llywio prosesau ysgol a gwasanaethau allanol fod yn arbennig o heriol, gan arwain at fwy o ddibyniaeth ar ysgolion fel prif ffynhonnell arweiniad a chymorth. Mae'r profiadau hyn yn atgyfnerthu'r disgwyliad y dylai ysgolion chwarae rhan ragweithiol wrth hysbysu teuluoedd am y gwasanaethau sydd ar gael a'u cefnogi drwy'r broses atgyfeirio.

Yn fwy cyffredinol, mae rhieni a gofalwyr yn aml yn profi rhwystredigaeth pan fydd systemau cymorth allanol yn araf neu'n anodd eu cyrchu, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl a phresenoldeb. Canfu Burtonshaw a Dorrell (2023) yn eu hastudiaeth yn Lloegr fod llawer o deuluoedd, yn enwedig y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, yn cael trafferth cael mynediad at gymorth priodol er gwaethaf eu bod yn adnabod bod angen cymorth ar eu plant. Roedd yr argyfwng canfyddedig mewn gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys diagnosis araf a darpariaeth gyfyngedig, yn gyfrifol am sgil-effeithiau oedd yn effeithio ar bresenoldeb yn yr ysgol a llesiant cyffredinol. Fel y mae Burtonshaw a Dorrell (2023) yn ei danlinellu, ysgolion yw'r gwasanaeth mwyaf hygyrch sydd ar gael i deuluoedd yn aml, ac felly mae rhieni a gofalwyr weithiau'n cyfeirio rhwystredigaeth tuag atynt pan fydd systemau allanol yn methu, gan gynyddu disgwyliadau y dylai ysgolion gymryd rhan fwy gweithredol wrth gefnogi anghenion emosiynol plant.

Gall ymgysylltiad cyfyngedig â gwasanaethau ehangach hefyd effeithio ar ddealltwriaeth rhieni a gofalwyr o brosesau presenoldeb a chynhwysiant. Yn eu hastudiaeth yng Nghymru, canfu Thomas (2025) fod llawer o rieni a gofalwyr yn teimlo nad oedd cefnogaeth yr awdurdod lleol yn ddigonol, gyda chyfran fawr yn derbyn fawr ddim cymorth i helpu eu plant i fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Roedd rhieni a gofalwyr yn gyson yn nodi bod cyfathrebu clir rhwng ysgolion, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol allanol yn hanfodol ar gyfer cefnogi datblygiad ac ymgysylltiad plant. Pan oedd y cyfathrebu'n aneglur, neu pan oedd rhieni a gofalwyr yn teimlo nad oeddent yn cael eu clywed, roeddent yn fwy tebygol o ddatgysylltu o'r systemau cymorth, gan gymhlethu ymdrechion i fynd i'r afael â phryderon presenoldeb ac ymddygiad ymhellach.

3.5 Amrywiaeth o ran disgwyliadau a dealltwriaeth rhieni a gofalwyr yn ôl cyd-destun

Ceisiodd y RES archwilio sut mae disgwyliadau a dealltwriaeth rhieni a gofalwyr o gyfrifoldeb yn amrywio yn ôl cyd-destun, gan gynnwys cyfnod ysgol, cyfrwng iaith, ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion/Addysg heblaw yn yr ysgol, ac ardal ddaearyddol (gan gynnwys trefol/gwledig), yn ogystal ag ar draws gwahanol grwpiau ethnig a chrefyddol (Cwestiwn Ymchwil 3). Nid oedd y llenyddiaeth o reidrwydd yn archwilio cyd-destunau o'r fath oherwydd y dystiolaeth gyfyngedig a geir ar y cyd-destunau hyn. Fodd bynnag, canfu'r RES y gall disgwyliadau a dealltwriaeth rhieni a gofalwyr o gyfrifoldeb newid yn ôl anghenion eu plant, yn ogystal â chyd-destunau economaidd-gymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol rhieni a gofalwyr, yn ogystal ag amrywiadau yn y cyd-destun ôl-COVID-19.

3.5.1 Disgwyliadau rhieni a gofalwyr sydd â phlant ag ADY

Un cyd-destun allweddol sy'n dylanwadu ar ddisgwyliadau rhieni a gofalwyr yw lefel y gefnogaeth a ddarperir mewn ysgolion, yn enwedig i blant ag ADY. Canfu Cummins a Hayton (2024) fod rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg yn y DU yn aml yn canfod bod staff ysgolion yn brin o hyfforddiant, ymwybyddiaeth ac amser. Roedd yr annigonolrwydd hwn yn lleihau hyder rhieni a gofalwyr yn y system addysg ac yn cynyddu eu cyfrifoldebau nhw eu hunain. Pan oedd y ddarpariaeth yn anghyson, byddai rhieni a gofalwyr yn aml yn creu deunyddiau dysgu hygyrch eu hunain, gan wneud yn iawn, i bob pwrpas, am fylchau mewn cefnogaeth broffesiynol. Mae hyn yn awgrymu y gall disgwyliadau rhieni a gofalwyr newid yn ôl cymhwysedd a dibynadwyedd canfyddedig gweithwyr proffesiynol.

Mae patrymau tebyg yn amlwg mewn ymchwil sy'n cynnwys rhieni a gofalwyr plant ag ASD, lle mae disgwyliadau'n newid yn ôl ansawdd y cymorth sydd ar gael. Mae Zeedyk et al. (2024) wedi canfod bod mamau'n addasu eu disgwyliadau yn dibynnu ar amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Mewn lleoliadau cefnogol a chynhwysol, roedd mamau'n disgwyl i athrawon allu darparu cefnogaeth ar gyfer datblygiad a diogelwch

eu plant, tra bod mamau'n atgyfnerthu strategaethau tebyg gartref. Fodd bynnag, mewn ystafelloedd dosbarth anhrefnus neu wedi'u trefnu'n wael, roedd mamau'n teimlo fel eu bod yn gorfod ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb eu hunain, gan ddod yn eiriolwyr yn aml a oedd yn monitro arferion athrawon ac yn gofyn am newidiadau i sicrhau bod anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu.

Mae'r cyfrifoldeb symudol hwn rhwng rhieni a gofalwyr ac athrawon hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y ffordd y mae teuluoedd yn rhyngweithio â systemau cymorth ehangach y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Canfu Ashworth et al. (2025), yng nghyd-destun y DU, fod rhieni a gofalwyr plant ag ASD yn disgwyl i ysgolion ddarparu amgylcheddau cynhwysol a oedd yn cefnogi iechyd meddwl ac yn cydweithio â gwasanaethau gofal iechyd i sicrhau diagnosis amserol ac ymyriadau priodol. Fodd bynnag, pan fethodd y systemau hyn ag ymateb yn effeithiol, adroddodd rhieni a gofalwyr fod cyfrifoldeb yn aml yn cael ei ailddyrannu iddynt. O ganlyniad, cymerodd llawer o rieni a gofalwyr rôl ychwanegol fel eiriolwyr, gan lywio systemau cymorth cymhleth a chydlynu'r gwasanaethau eu hunain.

Yn ogystal, mae data gan Verian (2026) yn dangos bod ymwybyddiaeth o Fforymau Rhieni a Gofalwyr—grwpiau lleol sy'n cynrychioli rhieni a gofalwyr plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (SEND)—yn amrywio ar draws mathau o ysgolion, gyda'r ymwybyddiaeth uchaf ymhlith rhieni a gofalwyr â phlant mewn ysgolion arbennig (55%), o'i gymharu â 31% o rieni a gofalwyr â phlant yn yr ysgol gynradd a 37% o rieni â phlant yn yr ysgol uwchradd, tra bod llawer o rieni a gofalwyr yn gyffredinol yn parhau i fod yn anymwybodol o'r gwasanaethau hyn.[1] Mae'r ymwybyddiaeth anghyson hon yn awgrymu bod mynediad at rwydweithiau eiriolaeth a gwybodaeth ddibynadwy yn chwarae rhan bwysig wrth lunio sut mae rhieni a gofalwyr yn deall eu cyfrifoldebau a'u gallu i ymgysylltu'n hyderus ag ysgolion.

Yn olaf, mae cyfathrebu a chydweithio rhwng ysgolion a theuluoedd yn ffactorau allweddol a adroddir fel rhai sy'n llunio sut mae rhieni a gofalwyr plant ag ADY yn deall eu cyfrifoldebau o ran addysg a datblygiad eu plant. Canfu Bridgeman (2025), yng nghyd-destun Cymru, fod rhieni a gofalwyr yn disgwyl cael eu cynnwys yn weithredol mewn prosesau gwneud penderfyniadau, nid yn unig eu bod cael gwybod am ganlyniadau ond eu bod yn cael eu cynnwys mewn camau ymgynghori drwy gydol y broses. Fodd bynnag, dangosodd yr astudiaeth hefyd fod rhieni a gofalwyr oedd â mwy o wybodaeth neu sgiliau eiriolaeth yn fwy tebygol o sicrhau cefnogaeth briodol, gan dynnu sylw at anghydraddoldebau yng ngallu teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau.

Yn yr un modd, nododd Thomas (2025) gyfathrebu gwael rhwng ysgolion, rhieni a gofalwyr, ac ALlau fel rhwystr sylweddol i gefnogi presenoldeb ymhlith plant ag ADY yng Nghymru. Pan fydd cyfathrebu'n gyfyngedig neu'n aneglur, gall rhieni a gofalwyr

[1] Mae'r acronym SEND yn derm a ddefnyddir yn system addysg Lloegr, ac ni ddylid ei gymysgu â'r acronym ADY a ddefnyddir yn system addysg Cymru.

gael trafferth deall eu rolau a’r gefnogaeth sydd ar gael, gan atgyfnerthu pwysigrwydd cydweithio tryloyw i alluogi rhieni a gofalwyr i gymryd rhan yn hyderus ac yn effeithiol yn addysg eu plant.

3.5.2 Disgwyliadau rhieni a gofalwyr yn ôl cyd-destunau economaidd-gymdeithasol

Mae disgwyliadau rhieni a gofalwyr hefyd yn amrywio yn ôl y cyd-destun economaidd-gymdeithasol. Mae ymchwil gan Bond, Moore a Hawkins (2025) mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig yng Nghymru yn awgrymu bod rhieni a gofalwyr yn aml yn barod i ymgysylltu â dysgu eu plant, ond mae tlodi a chaledi ariannol yn cyfyngu ar eu cyfranogiad mewn gweithgareddau ysgol. I rai teuluoedd, roedd mynychu digwyddiadau ysgol yn golygu bod angen cydbwyso costau, absenoldeb o'r gwaith a chyfranogiad, gan arwain at deimladau o allgáu neu stigma. Yn yr un modd, canfu Nurse (2025), yng nghyd-destun Lloegr, fod mamau sy'n profi tlodi, heriau iechyd, neu sy’n rhiant sengl yn aml yn blaenoriaethu llesiant eu plant dros ymgysylltiad academaidd. Yng Nghymru, archwiliodd Evans et al. (2025) y berthynas rhwng staff ysgolion, rhieni a gofalwyr a dysgwyr mewn 2 Ysgol Bro, a chanfu fod yr ysgolion hyn, mewn ardaloedd difreintiedig, yn aml yn blaenoriaethu gofal bugeiliol a llesiant oherwydd effaith tlodi ar ddysgu.

Mewn amgylcheddau o'r fath, gall disgwyliadau rhieni a gofalwyr o ysgolion a chylch gwaith yr ysgolion eu hunain ymestyn y tu hwnt i gyfarwyddyd academaidd i gynnwys cefnogaeth emosiynol a chymdeithasol hefyd.

3.5.3 Disgwyliadau rhieni a gofalwyr yn ôl cyd-destunau ieithyddol a diwylliannol

Mae rhwystrau mudo ac iaith yn creu cyd-destunau ychwanegol a all siapio rolau a disgwyliadau rhieni a gofalwyr. Canfu Skinner et al. (2025) y gallai rolau o fewn teuluoedd mudol newid pan fydd plant yn dod yn gyfieithwyr i'w rhieni a'u gofalwyr, gydag enghreifftiau perthnasol yn deillio o Ogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Gall y gwyrdroi rolau traddodiadol hyn greu tensiwn o fewn teuluoedd, ond mae hefyd yn dangos sut y gall cyfrifoldeb symud rhwng aelodau'r teulu yn dibynnu ar allu ieithyddol. Yn y sefyllfaoedd hyn, nododd rhieni a gofalwyr eu bod yn teimlo'n fwy hyderus a grymus pan oedd ysgolion yn eu cydnabod fel partneriaid gwybodus a 'chyd-addysgwyr' Skinner et al. (2025, t. 23) gan fod cydnabyddiaeth o'r fath wedi cryfhau eu gallu i gefnogi dysgu eu plant.

Fodd bynnag, nid yw'r partneriaethau cadarnhaol hyn bob amser yn digwydd. Mae Corrado (2025), mewn astudiaeth o rieni a gofalwyr Affricanaidd yn y DU, yn adrodd bod rhai rhieni a gofalwyr wedi ei chael hi'n anodd deall y system addysg oherwydd diffyg canllawiau a chyfathrebu gan yr ysgol. Arweiniodd y diffyg eglurder hwn at rieni a gofalwyr yn teimlo wedi’u llethu ac yn ansicr ynghylch sut i gefnogi eu plant yn effeithiol, er gwaethaf y ffaith eu bod yn aml yn meddu ar ddyheadau addysgol cryf.

Mewn cyd-destunau o'r fath, mae rhieni a gofalwyr yn disgwyl fwyfwy i ysgolion ddarparu cyfathrebu cliriach, gwybodaeth hygyrch a chymorth strwythuredig.

3.5.4 Cyd-destunau ôl-bandemig

Mae ffactorau systemig ehangach, yn enwedig y rhai sy'n dod i'r amlwg ar ôl pandemig COVID-19, hefyd wedi ail-lunio arferion presenoldeb a chysylltiadau rhwng ysgolion a theuluoedd, gan ddylanwadu ar sut mae rhieni a gofalwyr yn deall eu cyfrifoldebau. Adroddodd Burtonshaw a Dorrell (2023) am newid mewn agweddau rhieni a gofalwyr tuag at bresenoldeb yn yr ysgol yn dilyn aflonyddwch fel cyfyngiadau symud a streiciau. O ganlyniad i amharu hirfaith i addysg, dechreuodd rhai rhieni a gofalwyr ystyried diwrnodau ysgol unigol yn llai hanfodol nag o'r blaen, gan awgrymu eu bod wedi ailasesu eu cyfrifoldeb i sicrhau presenoldeb cyson. Yn bwysig, i'r awduron, ni ddigwyddodd y newid hwn ar ei ben ei hun ond cafodd ei ddylanwadu gan bwysau economaidd-gymdeithasol ehangach. Er enghraifft, creodd yr argyfwng costau byw rwystrau ychwanegol i lawer o deuluoedd, gyda chostau trafnidiaeth a threuliau dyddiol yn ei gwneud hi'n anoddach mynychu'n rheolaidd, yn enwedig i aelwydydd incwm isel.

3.6 Gwersi sydd ar gael o wledydd eraill y DU a gwledydd cymharol ar y goblygiadau ar gyfer polisi trawslywodraethol

Ceisiodd y RES hefyd archwilio beth y gellir ei ddysgu gan wledydd eraill y DU a gwledydd cymharol ynghylch sut mae cyfrifoldebau'n cael eu rhannu rhwng ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol a sut mae trefniadau o'r fath yn siapio disgwyliadau rhieni a gofalwyr (Cwestiwn Ymchwil 5). Roedd hefyd yn anelu at archwilio beth yw'r goblygiadau ar gyfer polisi trawslywodraethol, gan gynnwys sut y gellir cydweddu addysg, iechyd, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau cymunedol yn well i adlewyrchu sut mae rhieni a gofalwyr yn ceisio cymorth ac yn defnyddio cymorth ar hyn o bryd, lleihau baich diangen ar ysgolion, a chryfhau cydweithio effeithiol rhwng teuluoedd, ysgolion a gwasanaethau ehangach (Cwestiwn Ymchwil 6). O ystyried bod holl lenyddiaeth RES yn canolbwyntio ar wledydd y DU a gwledydd cymharol, mae eu gwersi ynghylch Cwestiwn Ymchwil 5 eisoes wedi'u plethu drwy'r bennod gyfan hon. Felly penderfynodd y tîm ymchwil gyfuno Cwestiynau Ymchwil 5 a 6 i ganolbwyntio ar yr hyn y gellir ei ddysgu gan wledydd eraill y DU a gwledydd cymharol ar y goblygiadau ar gyfer polisi trawslywodraethol.

At ei gilydd, mae gwersi o wledydd eraill yn y DU a gwledydd tebyg i Gymru yn tynnu sylw at y ffaith bod cefnogaeth effeithiol ar gyfer datblygiad, ymddygiad a llesiant plant yn dibynnu ar bartneriaethau amlasiantaeth, cydlynol lle mae cyfrifoldebau'n cael eu rhannu ond eu deall yn glir. Fodd bynnag, mae llwyddiant y model hwn yn dibynnu ar gyfathrebu cryf rhwng rhanddeiliaid, cydnabod arbenigedd rhieni a

gofalwyr, mynediad teg at systemau cymorth a fframweithiau polisi cydlynol. Heb y rhain, mae risg bod cyfrifoldebau'n mynd yn dameidiog neu'n anghymesur.

Ar draws systemau, mae consensws sy'n dod i'r amlwg yn tynnu sylw at bwysigrwydd partneriaethau rhwng ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol, er bod cydbwysedd cyfrifoldeb ac effeithiolrwydd cydweithio yn amrywio ar lefel ymarferol. Mae mewnwelediadau cymharol o gyd-destunau rhyngwladol yn atgyfnerthu pwysigrwydd partneriaethau system-gyfan. Mae'r OECD (2025) yn tynnu sylw at y ffaith fod disgwyl cynyddol i ysgolion ar draws llawer o systemau addysg, gydweithio nid yn unig â theuluoedd ond hefyd â rhanddeiliaid cymunedol a gwasanaethau cymdeithasol i fynd i'r afael ag iechyd, llesiant a heriau bywyd ehangach y plant. Mae'r partneriaethau hyn yn arbennig o bwysig i grwpiau difreintiedig, lle gall cefnogaeth gydlynol wella canlyniadau o ran ymddygiad, presenoldeb a llesiant. Fel y mae'r OECD (2025) yn ei danlinellu, mae systemau effeithiol yn dosbarthu cyfrifoldeb ar draws ecosystem ehangach, gydag ysgolion yn gweithredu fel cydlynwyr yn hytrach nag fel unig ddarparwyr cymorth. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen am fuddsoddiad cynaliadwy mewn staff ar draws addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod timau'n aros yn sefydlog dros amser ac yn gallu meithrin y perthnasoedd sy'n angenrheidiol ar gyfer cydweithio hirdymor.

Yn y DU, mae ymchwil yn tynnu sylw at fodel lle mae cyfrifoldebau'n gysylltiedig ond yn wahanol ymhlith y partneriaid dan sylw, gan ystyried gwahanol systemau addysg y DU. Fodd bynnag, gall y ffordd y caiff y cyfrifoldebau hyn eu gweithredu ddibynnu'n fawr ar ansawdd y berthynas a'r cyfathrebu ymhlith rhanddeiliaid. Gan dynnu ar wersi o'r pandemig, mae Levy (2024) yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfathrebu effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol yn ganolog i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o rolau ymhlith rhieni a gofalwyr ac ysgolion yn Lloegr. Dangoswyd bod cyfathrebu dwyffordd, ymgysylltu sy'n ymatebol yn ddiwylliannol a chydweithio amlasiantaeth, gan gynnwys sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol, yn cryfhau'r cyfrifoldeb a rennir dros lesiant plant. Mae Levy (2024) yn tanlinellu, hyd yn oed pan fydd cyfrifoldebau'n cael eu rhannu mewn egwyddor, y gall rhwystrau strwythurol gyfyngu ar allu teuluoedd i gymryd rhan yn gyfartal, er enghraifft, gyda mwy o ddefnydd o gyfathrebu digidol, lle gallai fod gan rai teuluoedd fynediad cyfyngedig.

Ar yr un pryd, mae tystiolaeth o Ogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydnabod teuluoedd fel cyfranwyr gweithredol yn hytrach na derbynwyr goddefol yn y model cyffredin hwn. Canfu Skinner et al. (2025) pan fydd ysgolion yn gweld rhieni a gofalwyr, yn enwedig y rhai o gefndiroedd mudol, fel cydweithredwyr, ei fod yn cryfhau'r berthynas â'r ysgol ac yn gwella'r canlyniadau i blant. Mae defnyddio gwybodaeth a phrofiadau diwylliannol teuluoedd nid yn unig yn gwella'r dysgu ond hefyd yn hyrwyddo cynhwysiant a pharch at ei gilydd. Mae'r dull hwn yn herio modelau mwy traddodiadol lle mae cyfrifoldeb yn cael ei osod yn ymhlyg ar ysgolion, gan eiriol dros rannu rolau mewn modd mwy dwyochrol a chydweithredol.

Er gwaethaf y pwyslais polisi hwn ar bartneriaeth, mae tystiolaeth o Loegr yn awgrymu bod gweithredu cyfrifoldebau a rennir yn parhau i fod yn anghyson. Yn eu hastudiaeth am ymgysylltiad rhieni a gofalwyr o fewn tirwedd polisi addysgol gyfredol Lloegr, mae Jones, Banerjee a Jackson (2025) yn dadlau bod polisïau ymgysylltu rhieni a gofalwyr yn aml yn brin o eglurder a chydlyniant, gan ganolbwyntio'n aml ar gyfathrebu yn hytrach na chydweithio ystyrlon ym mhrosesau dysgu a datblygiad y plant. Er bod ymgysylltiad rhieni a gofalwyr yn cael ei gydnabod ar draws nifer o feysydd polisi, fel addysg neu iechyd, mae diffyg gweledigaeth glir a chyffredin rhwng ysgolion a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol yn cyfyngu ar ei effeithiolrwydd ac yn rhoi cyfrifoldeb ar ysgolion i ddehongli a gweithredu canllawiau. Felly mae polisïau'n tueddu i ddylanwadu'n anuniongyrchol ar rieni a gofalwyr drwy ysgolion ac yn aml maent yn mabwysiadu dull 'un maint i bawb', gan anwybyddu gwahaniaethau mewn amgylchiadau teuluol. Yn ogystal, mae hyfforddiant cyfyngedig i athrawon ar weithio gyda rhieni a gofalwyr yn cyfyngu ymhellach ar gydweithio effeithiol, sy'n golygu y gall cyfrifoldeb gael ei rannu mewn enw ond heb ei gefnogi'n llawn yn ymarferol.

Enghraifft gyferbyniol, yn ôl Jones, Banerjee a Jackson (2025), yw'r Alban, lle mae model mwy cydlynol sy'n cynnwys strategaeth genedlaethol sy'n gosod ymgysylltiad rhieni a gofalwyr fel prif ysgogydd gwelliant ac yn cynnig canllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ymarferwyr a sectorau. Mae'r gymhariaeth hon yn awgrymu y gallai polisi ymgysylltu rhieni a gofalwyr elwa o fframwaith cliriach a mwy unedig sy'n cyd-fynd â disgwyliadau ar draws addysg, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau cysylltiedig, yn ogystal â chryfhau cydweithio rhwng teuluoedd, ysgolion a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol.

4. Trafodaethau fforwm agored gyda rhieni a gofalwyr

Mae'r bennod hon yn nodi crynodeb o'r prif themâu o'r trafodaethau fforwm agored a gynhaliwyd gyda 5 rhiant a gofalwr plant oedran ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru. Roedd y rhieni a'r gofalwyr hyn yn ymgysylltu cryn dipyn â dysgu eu plant ac felly maent yn cynrychioli proffil rhieni a gofalwyr sydd eisoes yn ymgysylltu. Ni ddylid darllen eu barn fel pe bai'n cynrychioli barn y boblogaeth ehangach o rieni a gofalwyr yng Nghymru. O ganlyniad, dim ond crynodeb byr o'u barn sydd ym Mhennod 4.

4.1 Meysydd cyfrifoldeb a rennir

At ei gilydd, mae'r hyn y mae'r 5 rhiant a gofalwr yn ei gredu yn awgrymu eu bod o'r farn bod y cyfrifoldeb am bresenoldeb yn yr ysgol, ymddygiad, datblygiad a llesiant plant yn rhywbeth a rennir rhwng rhieni a gofalwyr ac ysgolion. Mae eu barn yn awgrymu eu bod yn gweld eu hunain yn cymryd yr awenau yn y cyd-destun blynyddoedd cynnar a chynradd, gyda'r ysgol yn cymryd rôl fwy wrth i'r plant dyfu'n hŷn a mynd i'r ysgol uwchradd.

4.2 Meysydd ychwanegol sy'n gyfrifoldeb i'r ysgol

Roedd 4 o'r 5 rhiant a gofalwr yn credu bod diogelwch corfforol ac emosiynol dysgwyr tra yn yr ysgol yn gyfrifoldeb craidd i'r ysgolion. O ran diogelwch corfforol, roedd 3 rhiant a gofalwr yn disgwyl i ysgolion ymateb yn effeithiol i fwlio, rheoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth a diwallu anghenion dysgwyr (e.e. rheoli alergeddau). Roedd tri rhiant a gofalwr hefyd yn ystyried mai un o brif gyfrifoldebau'r ysgol yw hyrwyddo diogelwch emosiynol a llesiant plant yn ystod y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, roedd y rhieni a'r gofalwyr yn rhannu pryderon ynghylch i ba raddau yr oedd ysgolion yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn o fewn cylch gwaith diogelwch corfforol ac emosiynol.

4.3 Ffactorau allweddol sy'n effeithio ar gyfrifoldebau rhieni a gofalwyr

Wrth drafod eu rolau a'u cyfrifoldebau, trafododd pob un o'r 5 rhiant a gofalwr ystod o ffactorau oedd yn siapio sut roeddent yn mynd ati i ymdrin â'r cyfrifoldebau hyn ac yn eu rheoli. Roedd hyn yn cynnwys amgylchiadau ariannol teuluol. Yn benodol, disgrifiodd rhieni a gofalwyr oedd mewn swyddi anawsterau o ran peidio â gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau ysgol bob amser. Ar ben hynny, rhannodd rhieni a gofalwyr plant ag ADY eu profiadau o fod angen dod yn eiriolwyr dros anghenion eu plant yn yr ysgol, wrth iddynt ganfod bylchau o ran cyfathrebu neu gymorth gan yr ysgol o safbwynt darpariaeth ADY.

4.4 Cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol

Roedd heriau 4 o'r 5 her rhiant a gofalwr yn ymwneud ag ansawdd a chysondeb cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol. Roedd yr achosion hyn yn cynnwys bylchau canfyddedig yn y cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni a gofalwyr, anghysondebau o ran cyfathrebu rhwng staff ysgolion, a phryderon ynghylch amseriad a phriodoldeb rhai cyd-destunau lle rhannwyd cyfathrebu'r ysgol â rhieni a gofalwyr. Fodd bynnag, rhannodd 4 o'r 5 rhiant a gofalwr enghreifftiau cadarnhaol o ddulliau cydweithredol sy'n cefnogi'r cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol hefyd.

4.5 Cymorth gan wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol

Pwnc a drafodwyd gan 3 rhiant a gofalwr oedd cael mynediad at, neu fod yn y broses o gael mynediad at, wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol, gan gynnwys CAMHS, Mind, meddygon teulu, a gwasanaethau iechyd ehangach. Roedd profiadau'r 3 rhiant a gofalwr hyn yn amrywio'n sylweddol, gan gynnwys y farn bod gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol yn darparu cefnogaeth eilaidd i gefnogaeth yr ysgol, ansicrwydd ynghylch llwybrau atgyfeirio a llwybrau mynediad at wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol, yn ogystal ag ansicrwydd ynghylch sut y rhennir cyfrifoldebau rhwng ysgolion a'r gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, rhannwyd profiadau cadarnhaol o gefnogaeth gan wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol yn benodol gan un rhiant a wnaeth sylwadau ar y cymorth iechyd meddwl rhagorol a gafodd eu plentyn.

4.6 Ffyrdd ymlaen ar gyfer rolau a chyfrifoldebau'r ysgol a'r cartref

Roedd barn pob un o'r 5 rhiant a gofalwr yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwell eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau rhieni a gofalwyr ac ysgolion, atebolrwydd ar y cyd, cyfathrebu gwell rhwng y cartref a'r ysgol, a mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y gall rhieni a gofalwyr ymgysylltu â gweithgareddau a digwyddiadau'r ysgol.

5. Casgliad

Mae'r bennod hon yn nodi crynodeb o brif ganfyddiadau'r RES. Yna, mae'n amlinellu pwyntiau i'w hystyried yn y dyfodol.

5.1 Crynodeb o brif ganfyddiadau'r RES

5.1.1 Natur ac ansawdd y sail dystiolaeth

O'r 16 cyhoeddiad a ddarllenwyd, mae llawer o'r dystiolaeth wedi'i thynnu o ymchwil yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, gan gynnwys dadansoddiadau eang ac astudiaethau mwy penodol i'r cyd-destun, wedi'u hategu gan safbwyntiau rhyngwladol, yn enwedig o lenyddiaeth yr OECD. Mae'r dystiolaeth hefyd yn adlewyrchu ystod o brofiadau rhieni a gofalwyr, gan gynnwys rhai teuluoedd mudol, rhieni a gofalwyr plant ag ADY, a theuluoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol. Yn ogystal, mae'n cynnwys astudiaethau sy'n canolbwyntio ar rieni a gofalwyr plant mewn addysg gynradd ac uwchradd, ochr yn ochr â nifer lai o bapurau sy'n mynd i'r afael â'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi sy'n siapio'r berthynas rhwng cartref ac ysgol.

Er bod y cyhoeddiadau hyn yn rhoi cipolwg ar ddisgwyliadau rhieni a gofalwyr, dylid cadw mewn cof dim ond nifer fach o gyhoeddiadau sydd yn y RES hwn. Ar ben hynny, nid oedd y dystiolaeth sydd ar gael yn gynrychiolaeth gynhwysfawr o'r holl gyd-destunau a gynhwyswyd yn y cwestiynau ymchwil. Yn benodol, roedd tystiolaeth gyfyngedig yn ymwneud â rhai grwpiau rhieni a gofalwyr a chyd-destunau addysgol. Felly, dylid dehongli'r canfyddiadau fel cipolygon yn hytrach na darlun cyflawn o ddisgwyliadau rhieni a gofalwyr.

5.1.2 Canfyddiadau rhieni a gofalwyr o'u cyfrifoldebau eu hunain

Nododd yr adolygiad tystiolaeth fwy o lenyddiaeth ar ganfyddiadau rhieni a gofalwyr o'u cyfrifoldebau eu hunain o ran addysg a datblygiad cyffredinol plant nag ar ddatblygiad cynnar, gyda rhywfaint o lenyddiaeth ar ymddygiad a phresenoldeb. Mae'r sail dystiolaeth yn awgrymu bod rhieni a gofalwyr yn ystyried eu hunain yn gefnogwyr, yn eiriolwyr ac yn wneuthurwyr penderfyniadau gweithredol ynghylch datblygiad ac addysg eu plant, gyda'u cyfrifoldebau'n ymestyn i ddysgu ffurfiol ac anffurfiol gartref. Er gwaethaf hyn, mae'r llenyddiaeth yn nodi heriau i ymgysylltiad rhieni a gofalwyr ag addysg eu plant, sef diffyg amser, pethau sy'n mynd a'u sylw yn y cartref, amgylchiadau economaidd-gymdeithasol heriol, problemau iechyd a rhwystrau iaith. Mae'r llenyddiaeth hefyd yn dangos bod y ffordd y mae rhieni a gofalwyr yn gweld eu rolau yn cael ei siapio gan eu perthynas â'r ysgol a'u hamgylchiadau a'u proffiliau cymdeithasol ehangach, yn ogystal ag anghenion eu plentyn. Yn ogystal, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod presenoldeb yn aml yn cael ei weld fel rhywbeth pwysig ond ei fod yn cael ei drafod o fewn amgylchiadau teuluol, ac fel rhywbeth y mae rhieni a gofalwyr yn penderfynu arno. Mae'n bosibl bod rhieni a gofalwyr hefyd yn ystyried bod rheoli ymddygiad yn gyfrifoldeb a rennir gydag ysgolion.

5.1.3 Canfyddiadau rhieni a gofalwyr o gyfrifoldebau ysgolion

Mae'r ymchwil yn dangos bod rhieni a gofalwyr o'r farn bod ysgolion yn gyfrifol am lawer mwy na dim ond addysgu academaidd, gan ei gwneud hi'n aneglur ar adegau ble maen nhw'n gweld y ffin o ran y cyfrifoldebau rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae tystiolaeth i awgrymu y gallai rhieni a gofalwyr ystyried mai ysgolion sy'n gyfrifol am reoli ystafelloedd dosbarth yn effeithiol, cynnal ymddygiad a phresenoldeb cadarnhaol, a chefnogi llesiant emosiynol plant, yn ogystal â chreu amgylcheddau gofalgar a chefnogol. Mae tystiolaeth hefyd i awgrymu bod rhieni a gofalwyr yn disgwyl i ysgolion greu amgylcheddau dysgu cynhwysol a pharchus sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth a datblygiad cymdeithasol, yn ogystal â datblygu partneriaethau cryf rhwng y cartref a'r ysgol sy'n gynhwysol i gefndiroedd amrywiol. Mae'r RES yn tynnu sylw at y ffaith bod rhieni a gofalwyr plant ag ADY yn aml yn rhoi pwyslais arbennig ar gyfrifoldeb ysgolion i ddarparu gwybodaeth arbenigol, addasiadau priodol, ac amgylcheddau dysgu cynhwysol. Mae'r llenyddiaeth hefyd yn dangos bod rhieni a gofalwyr plant niwroamrywiol yn mynegi'r angen i ysgolion ddarparu mwy o gymorth sy'n seiliedig ar niwroamrywiaeth. Mae rhieni a gofalwyr hefyd yn pwysleisio ei bod hi'n bwysig bod yr ysgol yn ymgynghori â nhw mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu plant, gan y gall cael eu heithrio o wneud penderfyniadau danseilio ymddiriedaeth a chreu teimladau o gael eu hymylu.

5.1.4 Canfyddiadau o gefnogaeth gan wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol

Mae profiadau rhieni a gofalwyr gyda gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol yn aml yn cael eu nodweddu gan ddibyniaeth a rhwystredigaeth ar yr un pryd. Er bod rhieni a gofalwyr yn cydnabod pwysigrwydd cymorth iechyd a llesiant proffesiynol, maent yn nodi anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau, llywio'r llwybrau atgyfeirio, a chynnal cyfathrebu effeithiol â'r gwasanaethau hyn. Mae'r profiadau hyn yn arwain rhai rhieni a gofalwyr i ddisgwyl i ysgolion weithredu fel cydlynwyr cymorth canolog, gan ddarparu canllawiau, hwyluso atgyfeiriadau, cynnal cyfathrebu cryf â gweithwyr proffesiynol allanol, a datblygu amgylcheddau cynhwysol sy'n mynd i'r afael ag anghenion plant cyn i anawsterau waethygu.

5.1.5 Amrywiaeth o ran disgwyliadau a dealltwriaeth rhieni a gofalwyr yn ôl cyd-destun

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod disgwyliadau a dealltwriaeth rhieni a gofalwyr o gyfrifoldeb yn newid yn ôl anghenion y plentyn a phroffiliau economaidd-gymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol y rhieni a'r gofalwyr, yn ogystal ag yn ystod y cyfnod ar ôl COVID-19. Er enghraifft, gall rhieni a gofalwyr sy'n profi cyd-destunau economaidd-gymdeithasol heriol werthfawrogi addysg ond wynebu rhwystrau i gyfranogi gyda'r ysgol oherwydd heriau ariannol. Mewn amgylchiadau o'r fath o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, gellir disgwyl i ysgolion flaenoriaethu cymorth bugeiliol. Yn yr un modd, gall rhieni a gofalwyr mudol wynebu heriau sy'n

gysylltiedig ag iaith a systemau, a all gynyddu eu hangen i ysgolion gyfathrebu'n glir a darparu canllawiau a chydweithio clir. Mae'r ymchwil hefyd yn awgrymu bod rhieni a gofalwyr yn addasu'r hyn maen nhw'n ei ddisgwyl ganddyn nhw eu hunain, ysgolion a gweithwyr proffesiynol eraill yn dibynnu ar gymhwysedd a dibynadwyedd canfyddedig gweithwyr proffesiynol i ddiwallu anghenion eu plentyn, yn enwedig plant ag ADY. Yn ogystal, mae ffactorau systemig ehangach, yn enwedig y rhai sy'n dod i'r amlwg ar ôl pandemig COVID-19, wedi ail-lunio arferion presenoldeb, gydag ymchwil yn awgrymu y gallai rhai rhieni a gofalwyr fod wedi ailystyried eu cyfrifoldeb i sicrhau presenoldeb cyson.

5.1.6 Gwersi sydd ar gael o wledydd eraill y DU a gwledydd cymharol ar y goblygiadau ar gyfer polisi trawslywodraethol

Ar draws systemau addysg, mae consensws sy'n dod i'r amlwg yn amlygu pwysigrwydd partneriaethau rhwng ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol, er bod cydbwysedd cyfrifoldeb ac effeithiolrwydd cydweithio yn amrywio yn ymarferol. Mae ymchwil yn tynnu sylw at fodel amlasiantaeth lle mae cyfrifoldebau'n gysylltiedig â'i gilydd ond wedi'u gwahaniaethu ymhlith y partneriaid ac yn cael eu deall yn glir. Mae tystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydnabod rhieni a gofalwyr fel cyfranwyr gweithredol yn hytrach na derbynwyr goddefol o fewn y model cyffredin hwn. Fodd bynnag, mae ymchwil yn awgrymu y gall y ffordd y caiff y cyfrifoldebau hyn eu gweithredu ddibynnu'n fawr ar ansawdd y berthynas a'r cyfathrebu ymhlith rhanddeiliaid. Felly, gall llwyddiant model cydweithredol o'r fath ddibynnu ar gyfathrebu cryf rhwng rhanddeiliaid, cydnabod arbenigedd rhieni a gofalwyr, mynediad teg at systemau cymorth a fframweithiau polisi cydlynol. Gallai polisïau ymgysylltu rhieni a gofalwyr elwa o fframwaith unedig sy'n cyd-fynd â disgwyliadau ar draws addysg, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau cysylltiedig.

5.2 Pwyntiau i'w hystyried yn y dyfodol

Mae'r pwyntiau canlynol i'w hystyried yn y dyfodol yn seiliedig yn bennaf ar ganfyddiadau'r RES. Maent hefyd yn seiliedig yn rhannol ar y gwersi yn sgil yr heriau wrth recriwtio rhieni a gofalwyr ar gyfer yr ymchwil hon fel rhan o'r gwaith maes. Oherwydd graddfa fach yr ymchwil hon, dylid darllen y pwyntiau hyn fel meysydd posibl i'w hystyried.

5.2.1 Pwynt 1 i'w ystyried yn y dyfodol: Gallai ysgolion yng Nghymru adolygu, a, lle bo angen, diwygio eu dulliau o gynnwys rhieni a gofalwyr.

Tynnodd llenyddiaeth RES sylw at bwysigrwydd partneriaethau rhwng ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol. Er mwyn i fodel a rennir weithio, mae cydnabod rhieni a gofalwyr fel cyfranwyr gweithredol yn hytrach na derbynwyr goddefol yn allweddol, yn ogystal â chydnabod arbenigedd rhieni a gofalwyr, darparu systemau cymorth teg a chynnal cyfathrebu tryloyw.

Yn gyffredinol, gallai ysgolion yng Nghymru ystyried adolygu eu dulliau a'u strategaethau ar gyfer cynnwys rhieni a gofalwyr i asesu a yw eu harferion yn galluogi cyfranogiad amrywiol a chyfartal (e.e., digwyddiadau rhithwir) a chyfathrebu clir a chyson.

5.2.2 Pwynt 2 i'w ystyried yn y dyfodol: Naill ai'n genedlaethol neu'n lleol, dylid gwneud disgwyliadau ar gyfer cyfrifoldebau cartref-ysgol yn dryloyw ac yn ddealladwy i rieni a gofalwyr, dysgwyr, ysgolion a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol.

Tynnodd y RES sylw at y ffaith, ar draws systemau addysg, fod consensws sy'n dod i'r amlwg yn pwysleisio pwysigrwydd partneriaethau rhwng ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol, ac yn cyfeirio at fodel amlasiantaeth lle mae cyfrifoldebau'n gysylltiedig ond yn cael eu gwahaniaethu ymhlith y partneriaid ac yn cael eu deall yn glir. Gall llwyddiant model cydweithredol o'r fath ddibynnu ar sawl elfen, gan gynnwys fframwaith polisi cydlynol. Felly mae'r ymchwil yn tynnu sylw at bwysigrwydd dull amlasiantaeth a rolau a chyfrifoldebau clir. Yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn, un opsiwn i'w ystyried ymhellach yw a fyddai fframwaith unedig yn helpu i alinio disgwyliadau ar draws addysg, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau cysylltiedig.

Felly, gallai Llywodraeth Cymru, mewn trafodaethau ag ysgolion a rhanddeiliaid perthnasol, ystyried sefydlu fframwaith ysgol sy'n nodi disgwyliadau tryloyw ar gyfer rolau a chyfrifoldebau rhieni a gofalwyr, ysgolion, a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol ar draws meysydd fel datblygiad plant, presenoldeb, ymddygiad, a llesiant, gan gydnabod natur gydberthynol y ffactorau hyn. Byddai hyn yn debyg i'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud gan Lywodraeth yr Alban, fel y'i hamlygwyd yn y RES (Jones, Banerjee a Jackson, 2025). Dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n hawdd i rieni a gofalwyr ei deall ac yn ymarferol i'w chymhwyso o ddydd i ddydd, er enghraifft, drwy fapio cyfrifoldebau allweddol ar draws y cartref a'r ysgol, fel yr awgrymwyd yn y trafodaethau fforwm agored. Gallai ymchwil bellach, yn unol â Phwyntiau 3 a 4 isod, gefnogi gwaith o'r fath.

Gallai'r dull hwn gefnogi uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Rhaglen Lywodraethu 2026-2030 (Llywodraeth Cymru, 2026) yn amlinellu nod Llywodraeth Cymru i gefnogi athrawon gydag 'ymagwedd gyfannol amlasiantaeth' o ymdrin ag ymddygiad a llesiant, ac i rannu data ac arferion gorau yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi y bydd y dull hwn yn cael ei gyflawni drwy gydlynu fframwaith sy'n dwyn ynghyd ysgolion, gofal iechyd a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau ieuenctid i fynd i'r afael ag ymddygiad, presenoldeb a llesiant, yn ogystal ag anghydraddoldeb addysgol. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella dysgu proffesiynol, adrodd ar ddigwyddiadau, a rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion, a bydd yn profi'r broses o'i gweithredu drwy ei chynlluniau peilot Ysgolion Bro a Mwy.

5.2.3 Pwynt 3 i'w ystyried yn y dyfodol: Archwilio arferion gorau o ran cynnal ymchwil gyda rhieni a gofalwyr yng Nghymru

Crisialodd y llenyddiaeth a adolygwyd yn y RES farn y grŵp rhieni a gofalwyr yn gyffredinol a chanolbwyntiodd hefyd ar broffiliau rhieni a gofalwyr gan gynnwys teuluoedd mudol, rhieni a gofalwyr plant ag ADY, mamau, a theuluoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol. Fodd bynnag, ni chafodd pob proffil rhiant a gofalwr ei ddal yn llenyddiaeth y RES. Yn wir, roedd llai o wybodaeth i'w chael am dadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, gofalwyr Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig a gofalwyr sy'n berthnasau.

Ar ben hynny, roedd recriwtio rhieni a gofalwyr i ymuno â sesiynau trafod fforwm agored yn heriol. Er bod 20 o rieni a gofalwyr wedi mynegi diddordeb mewn ymuno â thrafodaethau sesiynau fforwm agored, yn y pen draw, dim ond 5 rhiant a gofalwr a fynychodd y sesiynau. Er bod eu barn wedi darparu mewnwelediadau allweddol, roeddent yn garfan o rieni a gofalwyr a oedd yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau ynghylch addysg eu plant. Felly, ni ddylid cymryd eu barn fel pe bai'n cynrychioli barn y boblogaeth ehangach o rieni a gofalwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, defnyddiodd y tîm ymchwil amrywiol ddulliau ar gyfer recriwtio i'r sesiynau fforwm agored hyn, gan gynnwys rhannu cyfathrebiadau recriwtio gyda sefydliadau rhieni a gofalwyr cenedlaethol, 77 o Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru, arweinwyr ALl, rheolwyr Ysgolion Bro, Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd ar draws pob un o'r 22 ALl yng Nghymru, a swyddogion cymorth llywodraethwyr ALl. Gofynnwyd i bawb y cysylltwyd â nhw gylchredeg cyfathrebiadau recriwtio drwy eu rhwydweithiau rhieni a gofalwyr. Rhannwyd cyfathrebiadau recriwtio ar sianeli cyfathrebu Hwb a Dysg hefyd.

Felly, gallai Llywodraeth Cymru ystyried adolygu a chryfhau ei dull o gasglu barn a phrofiadau rhieni a gofalwyr o fewn ei gweithgareddau ymchwil. Gallai hyn gynnwys ymgymryd â phrosiect cwmpasu pwrpasol i archwilio tystiolaeth o Gymru ac yn rhyngwladol ar ddulliau effeithiol o recriwtio ac ymgysylltu ag ystod amrywiol o rieni a gofalwyr mewn ymchwil. Gallai gwaith o'r fath archwilio amrywiaeth o fodelau ymgysylltu, gan gynnwys dulliau mewnol a dulliau a gomisiynir yn allanol, er mwyn nodi'r dulliau sy'n cefnogi cyfranogiad cynhwysol orau. Byddai cryfhau'r dulliau hyn yn helpu i wella cynrychiolaeth safbwyntiau amrywiol rhieni a gofalwyr mewn ymchwil gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau bod eu profiadau a'u mewnwelediadau'n cael eu hadlewyrchu'n ystyrlon wrth ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

5.2.4 Pwynt 4 i'w ystyried yn y dyfodol: Dylid cynnal ymchwil a/neu ymgynghori pellach ynghylch rolau a chyfrifoldebau rhwng yr ysgol a'r cartref.

Roedd y llenyddiaeth a gafwyd ar gyfer y RES yn canolbwyntio'n bennaf ar lenyddiaeth o'r DU, gan gynnwys rhai cyhoeddiadau yn canolbwyntio ar y system

ysgolion yng Nghymru. Er bod y cyhoeddiadau a oedd yn canolbwyntio ar Gymru wedi rhannu mewnwelediadau allweddol ynghylch disgwyliadau rhai grwpiau o rieni a gofalwyr, nid oedd pob un yn archwilio canfyddiadau o rolau a chyfrifoldebau'r ysgol a'r cartref yn uniongyrchol.

Mae'r drafodaeth fforwm agored gyda'r 5 rhiant a gofalwr a gymerodd ran wedi rhoi cipolwg cyfyngedig ar eu safbwyntiau ar rolau a chyfrifoldebau'r ysgol a'r cartref. Fodd bynnag, dim ond sampl fach o broffil rhieni a gofalwyr sydd eisoes yn ymwneud ag addysg eu plentyn yw'r rhieni a'r gofalwyr hyn, felly ni ddylid cymryd eu barn fel arwydd pendant o safbwyntiau ehangach.

Felly, gallai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu ymchwil bellach i archwilio rolau a chyfrifoldebau cartref-ysgol. Yn ogystal â chynnwys barn carfan amrywiol o rieni a gofalwyr yng Nghymru, dylai hefyd archwilio disgwyliadau a chanfyddiadau dysgwyr, staff ysgolion, a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol. Byddai hyn yn galluogi darlun cynhwysfawr o ganfyddiadau cyfredol o rolau a chyfrifoldebau'r ysgol a'r cartref yn y system addysg yng Nghymru.

6. Cyfeirnodau’r Synthesis Tystiolaeth Cyflym

Ashworth E, Bray L, Hanlon C, Stanway H, Pavlopoulou G, Moore D, Donaghy B, Coen E, Firth E. (2025) Accumulating harm and waiting for crisis': Parents' perspectives of accessing Child and Adolescent Mental Health Services for their autistic child experiencing mental health difficulties. Autism, 29(8), 2111-2122.

Bond, A., Moore, G., a Hawkins, J. (2025). Understanding parental involvement with schools and parental engagement with learning across schools in areas of socioeconomic deprivation in Wales. Educational Review, 77 (7), 2025–2045.

Bridgeman, J. (2025). The Participation of Parents of Children with Additional Learning Needs (ALN) in the School Exclusion Process in Wales. Cylchgrawn Addysg Cymru, 27(2).

Burtonshaw, S., Dorrell, E. (2023). Listening to, and learning from, parents in the attendance crisis.

Corrado, E. W. (2025). Barriers to African parental involvement within the UK education system. Power and Education, 17(2), 159-174.

Cummins, K., a Hayton, J. (2024). ‘Listen, learn, help’: Parental views on specialist vision impairment provision in the United Kingdom. British Journal of Visual Impairment, 42(1), 20-29.

Evans, C., Welton, N., Pitman, J., Clegg, Z., a Williams, D. (2025). An ethic of care in two community focused schools in Wales. Research Papers in Education, 40(2), 281–298.

Jones, C., Banerjee, P. a Jackson, L. (2025). The positioning of parental engagement within England's current educational policy landscape. British Educational Research Journal, 51, 2256–2270.

Keating, S., a Baker, CR (2024). Parental involvement and engagement in gender equality and LGBTQI-inclusive education: a case study from Gender Equality Matters in the Irish primary school context. Cambridge Journal of Education, 54(3), 357–375.

Levy, R. (2024). Home–school communication: what we have learned from the pandemic. Education 3-13, 52(1), 21–32.

Nurse, L. (2025). Parental perception of inclusive education: mothers’ narrative construct of the school space. International Journal of Inclusive Education, 29(4), 603–617.

OECD. (2025). School partnerships addressing child well-being and digital technology. OECD Education Policy Perspectives, No. 114.

Skinner, B., O'Toole, B., Thiarnaigh, R., a Stewart, M. (2025). Home-school partnership with migrant families: a way forward on the island of Ireland. Irish Educational Studies, 1–33.

Thomas, H. (2025). An Exploration of the Potential Link Between Attendance and Inclusivity in Education and the Impact on Children and Young People with ALN: A Parental Perspective. Ffocws ar Ymarfer (Cylchgrawn Addysg Cymru).

Verian. (2026). Parent, pupil and learner voice: Hydref 2025.

Zeedyk, S. M., Cohen, S. R., Blacher, J., a Eisenhower, A. (2024). Building classroom communities for children with autism spectrum disorder. International Journal of Inclusive Education, 28(7), 1093–1107.

7. Atodiad A: Protocol RES

Mae'r adran hon yn nodi'r cwestiynau ymchwil, y strategaeth chwilio, a'r meini prawf cynhwysiant a ddefnyddiwyd i benderfynu a yw'r astudiaethau a gyrchwyd yn cyd-fynd â'r RES.

7.1 Cwestiynau ymchwil

Yn seiliedig ar amserlen dynn y prosiect hwn, ac er mwyn sicrhau bod yr adnoddau oedd ar gael yn cael eu defnyddio'n effeithlon, pennwyd cwestiynau ymchwil wedi'u targedu a'u defnyddio i arwain chwiliad ac adolygiad o'r llenyddiaeth. Ceisiodd y RES ddarparu tystiolaeth ar y meysydd canlynol:

1. Sut mae rhieni/gofalwyr yn diffinio eu cyfrifoldebau eu hunain mewn perthynas â datblygiad cynnar eu plant (e.e., mynd i'r tŷ bach, lleferydd, iaith a chyfathrebu, cymwyseddau cymdeithasol ac emosiynol), ymddygiad a phresenoldeb?
2. Pa gyfrifoldebau y mae rhieni/gofalwyr yn credu y dylai fod yn gyfrifoldebau i'r ysgol yn y meysydd hyn, a ble maen nhw'n gweld y ffin rhwng cyfrifoldebau'r ysgol a'r cartref?
3. Sut mae disgwyliadau a dealltwriaeth rhieni a gofalwyr o gyfrifoldeb yn amrywio yn ôl cyd-destun, gan gynnwys cyfnod ysgol, cyfrwng iaith, ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion/Addysg heblaw yn yr ysgol, ac ardal ddaearyddol (gan gynnwys trefol/gwledig) ac ar draws gwahanol grwpiau ethnig a chrefyddol?
4. Sut mae rhieni/gofalwyr yn deall, yn cael mynediad at, ac yn profi cymorth gan wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol (e.e. maes iechyd, blynyddoedd cynnar, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau cymunedol) mewn perthynas â datblygiad, ymddygiad a llesiant eu plant, a sut mae'r profiadau hyn yn llunio disgwyliadau o'r hyn y dylai ysgolion ei ddarparu?
5. Beth ellir ei ddysgu gan wledydd eraill y DU a gwledydd cymharol eraill ynglŷn â sut mae cyfrifoldebau dros ddatblygiad cynnar, ymddygiad a llesiant yn cael eu rhannu rhwng ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol, a sut mae'r trefniadau hyn yn siapio disgwyliadau rhieni a gofalwyr o'r ysgol?
6. Beth yw'r goblygiadau ar gyfer polisi trawslywodraethol, gan gynnwys sut y gellir cydweddu addysg, iechyd, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau cymunedol yn well i adlewyrchu sut mae rhieni yn ceisio cymorth ac yn defnyddio cymorth ar hyn o bryd, lleihau baich diangen ar ysgolion, a chryfhau cydweithio effeithiol rhwng teuluoedd, ysgolion a gwasanaethau ehangach?

7.2 Meini prawf cynnwys ac eithrio

Defnyddiodd y tîm ymchwil feini prawf cynnwys ac eithrio i benderfynu a oedd y deunyddiau a nodwyd o'r chwiliad yn addas ar gyfer ateb cwestiynau ymchwil craidd y prosiect hwn. Mae'r meini prawf a ddefnyddiwyd i symud o restr hir o ddeunyddiau tuag at restr ddarllen fer o astudiaethau a gynhwysir yn y Daflen Detholiad Ymchwil wedi'u rhestru yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Meini prawf cynnwys ac eithrio ar gyfer y Daflen Detholiad Ymchwil

Thema	Meini Prawf Cynnwys	Meini Prawf Eithrio
Gwlad yr astudiaeth	Cymru a gwledydd eraill y DU. Hefyd, dewiswyd tystiolaeth ryngwladol o awdurdodaethau a ystyriwyd yn gymharol â Chymru, e.e. Iwerddon. Datblygwyd y meini prawf ar gyfer pennu pa mor gymharol oeddent yn iteraidd yn ystod yr adolygiad.	Eithriwyd gwledydd nad ydynt yn rhan o'r DU nad ydynt yn cael eu hystyried yn gymharol â Chymru. Aseswyd awdurdodaethau i weld a oeddent yn gymaradwy yn seiliedig ar feini prawf a ddatblygwyd yn ystod y broses adolygu.
Dulliau	Pob dull, gan gynnwys astudiaethau ansoddol, astudiaethau disgrifiadol ac arsylwadol, dadansoddi meintiol a gwerthuso, ac adolygiadau tystiolaeth a meta-dadansoddiadau.	
Meysydd ffocws	Astudiaethau sy'n ymchwilio i gwestiynau sy'n berthnasol i'r cwestiynau ymchwil.	Ystyriwyd bod astudiaethau nad oeddent yn canolbwyntio ar y cwestiynau ymchwil a gyflwynwyd, y tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon. Ni chynhwyswyd astudiaethau nad oeddent yn canolbwyntio ar ddysgwyr oedran ysgol mewn addysg gynradd ac uwchradd (sectorau addysg eraill fel y blynyddoedd cynnar, addysg bellach, neu addysg uwch).

Dyddiad yr ymchwil	Mae corff y llenyddiaeth ar gyfer y pynciau hyn yn tyfu, felly canolbwyntiodd y tîm ymchwil yn bennaf ar y cyfnod ôl-COVID-19 o 2023 hyd heddiw er mwyn sicrhau eu bod yn cynrychioli disgwyliadau cyfredol rhieni a gofalwyr.	Testunau a gyhoeddwyd cyn 2023.
Iaith	Cymraeg a Saesneg	Unrhyw iaith arall
Math o astudiaethau	Llenyddiaeth academaidd: Erthyglau cyfnodolion a phenodau llyfrau wedi'u hadolygu gan gymheiriaid. Llenyddiaeth lwyd: ymchwil a gomisiynwyd gan y llywodraeth, cyhoeddiadau gan sefydliadau ymchwil, cyhoeddiadau'r llywodraeth.	Erthyglau papur newydd ac erthyglau golygyddol/barn, erthyglau cylchgrawn, traethodau hir, a llyfrau neu weithiau eraill o hyd cyfatebol.

7.3 Ffynonellau gwybodaeth

Daeth y tîm ymchwil o hyd i dystiolaeth o'r llenyddiaeth academaidd a'r llenyddiaeth lwyd. Cynhaliwyd chwiliadau gan ddefnyddio gweithredwyr Boolean ar draws cronfeydd data a llyfrgelloedd ar-lein, gan gynnwys ERIC, JSTOR, SAGE, SSRN, a Taylor a Francis. Gan gydnabod bod llenyddiaeth lwyd berthnasol hefyd, roedd y protocol yn ymgorffori chwiliad wedi'i dargedu o astudiaethau a gynhyrchwyd gan sefydliadau yn y DU a sefydliadau rhyngwladol, gyda ffocws penodol ar Lywodraeth Cymru, yr Adran Addysg, a'r OECD.

Cyn dechrau'r ymchwil hon, roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnal ei chwiliadau mewnol ar yr effaith gymdeithasol ar amser athrawon (chwiliadau yn y DU ac yn rhyngwladol). Oherwydd natur debyg y pwnc ymchwil hwn i chwiliadau mewnol Llywodraeth Cymru, ychwanegwyd y chwiliadau hyn at y rhestr hir.

7.4 Strategaeth chwilio

Cynlluniodd y tîm ymchwil y strategaeth chwilio i sicrhau ei bod wedi'i thargedu at ateb y cwestiynau ymchwil allweddol yn drylwyr. Mae Tabl 2 yn dangos yr allweddeiriau a ddefnyddiwyd i nodi ffynonellau tystiolaeth perthnasol.

Gosodwyd y protocol hwn i ganfod y darnau mwyaf perthnasol o lenyddiaeth i fynd i'r afael â phrif gwestiynau'r ymchwil. Yn seiliedig ar yr amserlen a chwmpas yr

adolygiad, adeiladwyd y strategaeth chwilio drwy dargedu allweddeiriau sy'n bresennol yn y teitl (prif faes) a'r crynodeb (lefel y bennod a'r cwestiwn ymchwil).

Yn ystod yr adolygiad cwmpasu, profwyd gwahanol gyfuniadau o eiriau i gyrraedd y set o allweddeiriau a gyflwynir yn Nhabl 2. Cyfunwyd termau chwilio yn llinynnau chwilio gan ddefnyddio gweithredwyr Boolean (AC/NEU/NID) a gweithredwyr chwilio eraill sy'n benodol i gronfa ddata.

Tabl 2: Allweddeiriau ar gyfer strategaeth chwilio

Rhestr o allweddeiriau ar gyfer y strategaeth chwilio	
Grŵp	rhiant*, rhiant, gofalwr*, teulu*
Disgwyliadau ac ymgysylltiad	Ymwneud, ymgysylltu*, canfyddiad*, persbectif, agwedd*, disgwyliad*
Perthynas â'r ysgol	ysgol*, addysg plant, addysgu, perthynas cartref-ysgol, partneriaeth cartref-ysgol*, ffin cartref-ysgol*, perthynas rhiant-ysgol, rôl athro/athrawes, staff yr ysgol
Lleoliad	Awstria, Lloegr, Ewrop, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Iwerddon, yr Eidal, Seland Newydd, Gogledd Iwerddon, yr Alban, Sbaen, Cymru, y DU

Dewiswyd gwahanol gyfuniadau o dermau chwilio a meysydd allweddair i nodi tystiolaeth berthnasol. Y rhai a ddefnyddiwyd oedd y rhai a ddychwelodd nifer sylweddol, ond rheoladwy, o ganlyniadau perthnasol.

7.5 Cofnodion astudio

7.5.1 Rheoli data

Er mwyn sicrhau bod y broses chwilio yn gynhwysfawr ac yn dryloyw, defnyddiwyd Taflen Gweithgaredd Ymchwil i gofnodi'r holl dermau chwilio, ffynonellau y cafwyd mynediad atynt, dyddiad y chwiliad a nifer y canlyniadau chwilio. Cofnododd a chynhaliodd y tîm ymchwil restr o'r cyfeiriadau a gafwyd mewn pecyn meddalwedd arbenigol o'r enw Zotero. Mae Zotero yn offeryn rheoli cyfeiriadau ffynhonnell agored, sy'n rhad ac am ddim ac sy'n storio gwybodaeth ddyfynnu (e.e., awdur, teitl a meysydd cyhoeddi) ac sydd â'r gallu i drefnu, tagio a chynnal chwiliadau uwch.

7.5.2 Proses ddethol a chasglu data

Dechreuodd y tîm ymchwil y broses drwy sgrinio canlyniadau'r chwiliad cychwynnol i gael gwared ar unrhyw astudiaethau dyblyg er mwyn llunio rhestr hir o gyhoeddiadau. Sgriniodd y tîm ymchwil deitlau, crynodebau ac allweddeiriau'r cyhoeddiadau ar y rhestr hir i benderfynu pa astudiaethau i'w cynnwys yn y rhestr

fer. Cynhaliwyd y broses sgrinio i ddewis papurau ar y rhestr fer yn unol â'r meini prawf cynnwys ac eithrio a restrir yn Nhabl 1. Gwiriodd ymchwilydd annibynnol sampl ar hap o benderfyniadau i wirio cytundeb â'r broses sgrinio. Yn yr achosion bach lle na chafwyd cytundeb cychwynnol, daeth y tîm ymchwil ynghyd i drafod eu barn a dod i gytundeb. Arweiniodd y broses sgrinio at restr fer o 24 o gyhoeddiadau.

7.6 Echdynnu data

Er mwyn casglu canfyddiadau allweddol pob astudiaeth a oedd wedi'i chynnwys yn y rhestr fer a chyfyngu'r rhestr fer o 24 o gyhoeddiadau i restr derfynol o 16 cyhoeddiad, defnyddiodd y tîm ymchwil Daflen Detholiad Ymchwil a oedd yn cynnwys y manylion canlynol ar gyfer pob astudiaeth:

- Teitl
- Awdur(on)
- Math o gyhoeddiad
- Dyddiad cyhoeddi
- Ffynhonnell
- Gwlad/Rhanbarth y ffocws
- Crynodeb/Crynodeb Gweithredol
- Methodoleg (e.e., grwpiau ffocws, cyfweliadau, arolwg)
- Math o grŵp rhieni a gofalwyr
- Math o grŵp dysgwyr
- Cwestiynau ymchwil perthnasol a drafodwyd
- Crynodeb o'r canfyddiadau
- Sgôr ansawdd

Cofnodwyd y wybodaeth yn MS Excel.

7.6.1 Asesu ansawdd a pherthnasedd astudiaethau

Yn olaf, asesodd y tîm ymchwil ansawdd yr ymchwil. Cydnabu'r tîm ymchwil fod angen i'r fframwaith asesu fod yn hyblyg i ddarparu ar gyfer sylfaen dystiolaeth amrywiol. Felly, datblygwyd fframwaith asesu ansawdd pwrpasol a oedd yn addas at y diben ac wedi'i deilwra i nodweddion penodol y llenyddiaeth. Aseswyd ansawdd ar (i) hygrededd, (ii) methodoleg yr astudiaeth a (iii) perthnasedd. Ar gyfer pob categori, rhoddodd y tîm ymchwil sgôr o 1-3 (gydag 1 yn cynrychioli'r sgôr isaf a 3 y sgôr uchaf). Mae Tabl 3 yn rhoi manylion am sut y diffinwyd y tri chategori hyn a'r canllawiau sgorio, a ddarparwyd i ymchwilwyr ymlaen llaw.

Tabl 3: Asesu ansawdd

Elfen	Disgrifiad	Sgôr
Hygrededd	A yw'r astudiaeth yn gydlynol? A ellir ymddiried yn y canfyddiadau? A yw'r awdur yn ystyried cyfyngiadau'r astudiaeth neu ddehongliadau amgen o'r dadansoddiad? A yw'r astudiaeth wedi cael ei hadolygu gan gymheiriaid? 1 = Nid yw'r astudiaeth wedi cael ei hadolygu gan gymheiriaid, gyda chasgliadau wedi'u tynnu o ddata cyfyngedig neu drafodaeth ddamcaniaethol. Diffyg tryloywder ynghylch data a dim trafodaeth am ansawdd data. 2 = Cyhoeddir yr astudiaeth yn anffurfiol fel papur gwaith/adroddiad ymchwil gan ffynhonnell ddibynadwy. Trafodaeth gyfyngedig ynghylch ffynonellau, gwybodaeth ac ansawdd data, neu ddehongliadau amgen o ganfyddiadau ymchwil. 3= Cyhoeddir yr astudiaeth mewn cyfnodolyn academaidd a adolygir gan gymheiriaid neu fe'i cyhoeddir fel llenyddiaeth lwyd ac mae'n dogfennu ansawdd gwybodaeth, penderfyniadau samplu ac agweddau eraill ar y fethodoleg yn drylwyr.	1-3
Methodoleg	Pa mor gadarn yw'r dystiolaeth i gyfrannu at ein hadolygiad? 1 = Mae'r fethodoleg yn wan ac yn dibynnu ar farn anwybodus neu ddata annibynadwy. Pryderon sylweddol ynghylch dilysrwydd canfyddiadau meintiol a/neu ddibynadwyedd canfyddiadau ansoddol. 2 = Rhai cyfyngiadau o ran methodoleg a dilysrwydd canfyddiadau meintiol a/neu ddibynadwyedd canfyddiadau ansoddol ond ystyrir eu bod yn dderbyniol. 3 = Mae'r fethodoleg yn gryf, ac mae'r deunyddiau ymchwil yn amlwg yn gysylltiedig â chwestiynau ymchwil ac nid ydynt yn arweiniol nac yn rhagfarnllyd. Ychydig o bryderon ynghylch dilysrwydd y canfyddiadau meintiol a/neu ddibynadwyedd canfyddiadau ansoddol.	1-3
Perthnasedd	A yw'r astudiaeth yn helpu i ateb y cwestiwn ymchwil? 1 = Nid yw'r cwestiwn ymchwil na'r rhagdybiaeth yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cwestiynau ymchwil arfaethedig. 2 = Dim ond rhywfaint o gysylltiad sydd rhwng y cwestiwn neu'r rhagdybiaeth ymchwil a'r cwestiynau ymchwil arfaethedig. 3 = Mae'r cwestiwn neu'r rhagdybiaeth ymchwil yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cwestiynau ymchwil arfaethedig.	1-3
Barn gyffredinol	O ystyried y categorïau uchod, beth yw'r farn gyffredinol?	3-9

Gwiriodd yr ymchwilwyr sampl ar hap o sgoriau asesu ei gilydd. Yn y mân achosion lle na chafwyd cytundeb cychwynnol, daeth y tîm ymchwil ynghyd i drafod eu barn a dod i gytundeb. Nod y sgôr ansawdd hwn oedd sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o arferion gorau, dulliau a thrafodaethau ar y pynciau, gan wneud y cyhoeddiadau a gynhwyswyd yn yr adolygiad mor berthnasol â phosibl. Dim ond cyhoeddiadau â chyfanswm sgôr o 9 neu 8 a gynhwyswyd yn y RES, gyda'r rhai a sgoriodd farc o 8 ond yn methu marc oherwydd perthnasedd. Arweiniodd hyn at gyfanswm o 16 cyhoeddiad, a adolygwyd mewn modd cyfartal yn y synthesis, gan fod gan bob un lefelau gwahanol o berthnasedd ar gyfer gwahanol gwestiynau ymchwil RES. Cafodd y rhai â sgôr o 7 neu lai eu hepgor o'r rhestr derfynol o gyhoeddiadau er mwyn lleihau nifer yr astudiaethau i'r nifer y cytunwyd arno, sef hyd at 16 cyhoeddiad.

8. Atodiad B: Canllaw trafodaeth fforwm agored

Cynhesu / torri'r iâ

1. Dywedwch wrthym eich enw cyntaf, os ydych chi'n dymuno gwneud hynny, ac ar ba gam/gamau addysg y mae eich plentyn/plant.

Cofiwch y gallwch chi rannu cymaint neu gyn lleied ag y dymunwch.

Neu os yw'n well gennych, gallwch ysgrifennu yn y blwch sgwrsio.

Rôl a chyfrifoldebau rhieni/gofalwyr

2. Beth yw rôl rhieni/gofalwyr yn eich barn chi wrth gefnogi eu plant, yn enwedig o ran eu datblygiad, eu hymddygiad a'u presenoldeb yn yr ysgol?

Sbardun: Er enghraifft...

Arferion dyddiol (gwaith cartref, maeth, gweithgareddau allgyrsiol)

Sgiliau cymdeithasol a lleferydd, iaith a chyfathrebu

Presenoldeb yn yr ysgol

Annibyniaeth (e.e. mynd i'r tŷ bach)

Cymwyseddau emosiynol

3. Beth sy'n helpu rhieni/gofalwyr i gyflawni'r rôl hon, a beth all ei gwneud hi'n anoddach weithiau?

Sbardun: Er enghraifft...

Ymrwymiadau amser neu waith

Sefyllfa ariannol

Mynediad at gefnogaeth

Anghenion dysgu neu iechyd plant

Amgylchiadau teuluol (e.e. nifer y plant)

Hyder neu wybodaeth am sut i gefnogi eich plant

4. Ydy disgwyliadau eich rôl fel rhieni/gofalwyr wrth gefnogi eich plant wedi newid oherwydd amgylchiadau penodol neu anghenion eich plant, ac os felly, a allwch chi ddweud ychydig mwy wrthym am hynny?

Sbardun: Er enghraifft...

Oedran ac anghenion y plentyn

Nifer y plant

Cyfrwng ysgol

Sefyllfa ariannol

Mynediad at gefnogaeth

Hyder neu wybodaeth am sut i gefnogi eich plant

Rôlau a chyfrifoldebau'r ysgol

5. Beth, yn eich barn chi, y dylai ysgolion fod yn gyfrifol amdano o ran datblygiad, ymddygiad a phresenoldeb plant yn yr ysgol?

Sbardun: Er enghraifft...

Arferion dyddiol (gwaith cartref, maeth, gweithgareddau allgyrsiol)

Sgiliau cymdeithasol a lleferydd, iaith a chyfathrebu

Presenoldeb yn yr ysgol

Annibyniaeth (e.e. mynd i'r tŷ bach)

Cymwyseddau emosiynol

6. Yn eich barn chi, ydy'r hyn y mae rhieni/gofalwyr yn ei ddisgwyl gan ysgolion yn newid yn dibynnu ar eu hamgylchiadau neu anghenion eu plant? Ydy eich disgwyliadau chi wedi newid oherwydd amgylchiadau gwahanol?

Geiriad dilynol/amgen os oes angen: Ydy eich disgwyliadau o'r hyn y dylai ysgolion ei gynnig wedi newid o gwbl dros y blynyddoedd, ac os felly, a allwch chi ddweud ychydig mwy wrthym am hyn?

Sbardun:

Ydy disgwyliadau'n newid yn dibynnu ar oedran y plant?

Beth am pan fydd gan blant anghenion penodol?

Ydy sefyllfaoedd gwaith neu deuluol yn effeithio ar yr hyn y mae rhieni/gofalwyr yn ei ddisgwyl gan ysgolion?

Ydy rhai rhieni/gofalwyr yn dibynnu mwy ar ysgolion nag eraill?

Cyfrifoldebau a rennir, cyfathrebu a ffiniau rhwng rhieni/gofalwyr ac ysgolion

7. Ydych chi wedi cydweithio ag ysgol eich plant i gefnogi datblygiad, ymddygiad neu bresenoldeb eich plant yn yr ysgol, ac os felly, sut byddech chi'n disgrifio'r profiad hwnnw?

Dilynol: Allwch chi rannu enghraifft o pryd aeth y cydweithio ag ysgol eich plant yn dda? Beth helpodd i wneud iddo weithio'n dda?

Dilynol: Allwch chi feddwl am amser pan oedd y cydweithio â'r ysgol o amgylch anghenion eich plant yn teimlo'n anodd neu'n heriol?

8. Sut byddech chi'n disgrifio eich profiadau o ran cyfathrebu rhyngoch chi ac ysgol eich plant?

Sbardun:

Pa mor hawdd neu anodd yw hi i gael gwybodaeth?

Pa mor aml ydych chi'n clywed gan yr ysgol?

Ydy cyfathrebu clir yn eich helpu i ddatrys pryderon, cwestiynau neu ofidiau am eich plant?

Beth yw'r mecanweithiau i gyfathrebu â'r ysgol (negeseuon, cyfarfodydd, galwadau)?

9. Fel rhiant, a oes adegau pan mae'n teimlo'n aneglur pwy ddylai fod yn gyfrifol am ddatblygiad, ymddygiad, presenoldeb yn yr ysgol a llesiant eich plant (rhieni/gofalwyr, ysgolion, neu wasanaethau eraill)?

Sbardun: Er enghraifft...

Cymorth emosiynol

Datblygiad iaith

Sgiliau cymdeithasol

Iechyd meddwl

Presenoldeb yn yr ysgol

10. Oes unrhyw feysydd lle rydych chi'n teimlo y dylai rhywbeth fod yn gyfrifoldeb i rieni/gofalwyr yn bennaf, yn gyfrifoldeb i'r ysgol yn bennaf, neu'n rhywbeth y dylid ei rannu rhwng y ddau?

Sbardun: Er enghraifft...

Cymorth emosiynol

Datblygiad iaith

Sgiliau cymdeithasol

Iechyd meddwl

Presenoldeb yn yr ysgol

Cymorth gan wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol

11. Ydych chi erioed wedi cael cefnogaeth gan wasanaethau y tu allan i'r ysgol, fel iechyd, blynyddoedd cynnar, cefnogaeth i deuluoedd, neu wasanaethau cymunedol i'ch plant? Os felly, sut brofiad oedd hynny?

Ysgogiad: Pa bobl neu wasanaethau eraill ydych chi wedi eu defnyddio sy'n eich cefnogi gyda datblygiad, ymddygiad neu lesiant eich plant?

12. A oes meysydd lle rydych chi'n teimlo, fel rhieni/gofalwyr, bod angen mwy o gefnogaeth arnoch chi nag yr ydych chi'n ei gael ar hyn o bryd o ran datblygiad, ymddygiad a llesiant eich plant, a phwy ddylai fod yn gyfrifol am y gefnogaeth hon?

Awgrym: rolau ysgol, rolau gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol

Gwella cydweithio

13. Beth fyddai'n eich helpu chi fel rhieni/gofalwyr i weithio ymhellach gydag ysgolion a gwasanaethau eraill nad ydynt yn wasanaethau ysgol i gefnogi eich plant?

Dilynol: Pe gallech chi roi un darn o gyngor i ysgolion neu wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau ysgol ynglŷn â chydweithio â rhieni/gofalwyr, beth fyddai hwnnw?

I gloi

14. Oes unrhyw beth nad ydym wedi gofyn amdano heddiw, ac yr hoffech chi ei rannu ar hyn o bryd?